Tudalen 7
FFARWELIO

Tudalen 9
YSGOL DOLBADARN

Tudalen 10
PRIODAS DDIAMWNT

Tudalen 19
DYDD GWYL DEWI

ECO'r Wyddfa

Rhif: 398
Ebrill 2012
Pris: 50c

Hogia Llanrug – Dros Gymru

Mae dau o hogia o Lanrug wedi chwarae rhan mewn gwahanol ddathliadau Cymreig yn ystod y mis a aeth heibio.

Teithiodd un i Gaerdydd, ac aeth y llall fymryn ymhellach i Baris. Dau achlysur go wahanol i'w gilydd, ond yr un oedd balchder y ddau o gael bod yn rhan o gynrychiolaeth ryngwladol Gymreig.

Mae Cian Gibbard yn aelod o dim peldroed dan 10 oed Llewod Llanrug, ac yr oedd yn un o'r bechgyn ffodus a ddewiswyd fel mascot ar gyfer tim Cymru yn eu gêm gyfeillgar yn erbyn Costa Rica. Gêm oedd hon a drefnwyd yn deyrnged ac er cof am y cyn-reolwr Gary Speed, a theimlad bythgofiadwy i Cian oedd cael cerdded allan ar y cae yng nghwmni chwaraewyr Cymru. Ac er mai colli fu hanes y tim ar y noson, bydd yr achlysur yn sicr o aros yn y cof, ac yn stori gwerth ei hadrodd mewn blynyddoedd i ddod.

Ar daith i Baris y bu Tomi Llywelyn, ond nid i chwarae peldroed. Enillodd Tomi ar ganu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd y llynedd, a chafodd ei ddewis yn rhan o garfan o enillwyr a wahoddwyd i Disneyland ar gyfer eu Gwyl Gymreig fis Mawrth. Yn ogystal â chanu mewn cyngerdd o flaen cynulleidfa o rai cannoedd, cafodd hefyd deithio gyda Mickey Mouse mewn parêd drwy'r holl ganolfan. Profiad arall i'w drysori am flynyddoedd i ddod. Ysgrifennodd Tomi hanes ei ymweliad â Pharis, a chewch ddarllen yr hanes cyffrous ar dudalen 10.

Bydd uchafbwyntiau'r daith i Disneyland yn cael eu dangos mewn rhaglen arbennig ar S4C ar Ebrill 6ed.

Stori Ffwl Ebrill? Tybed?

Y mis diwethaf cawsom wybod fel yr effeithiodd y Gemau Olympaidd ar ddarlledu Ras yr Wyddfa. Wel, mae'r jambori ar ei ffordd drwy Arfon. Ar ddydd Llun, 28ain o Fai bydd y Dorch Olympaidd yn teithio i Gaernarfon ac ymlaen i Fangor, gyda chyngerdd awyr agored yn y ddinas honno i ddathlu'r achlysur.

Yna, yn ôl a ddeallwn, bydd y Dorch yn cael ei chario yn gynnar fore ddydd Mawrth mewn car i Lanberis cyn ei throsglwyddo i drên bach yr Wyddfa a'i chario i'r copa. Wrth gwrs, bydd angen rhywun i gario'r Dorch o'r trên i'r garnedd ar y copa. Pwy felly gaiff yr anrhydedd o gario'r Dorch Olympaidd i'r man uchaf ar ei thaith o amgylch Gwledydd Prydain? Oes yna Gymro lleol sy'n haeddu'r anrhydedd? Oes yna unrhyw un o Gymru yn haeddu'r anrhydedd? Wel, nagoes siwr iawn. Cofiwch mai gemau Llundain yw'r rhain, ac felly, Llundeiniwr o'r enw Syr Chris Bonington fydd yn derbyn y Dorch a'i chludo i Garnedd Rhita Gawr.

Ond efallai mai stori Ffwl Ebrill ydi hon wedi'r cwbl!

CYFARFOD BLYNYDDOL YR 'ECO'

Y SEFYDLIAD COFFA, LLANRUG,
Nos Fercher, Ebrill 25ain am 7.30

Dyma'r cyfarfod cyntaf ers i'r 'Eco' gael tudalennau lliw.

Dewch draw i fynegi eich barn.

Oes gennych syniadau newydd am ddyfodol y papur?

Dyma gyfle i ddweud eich dweud.

O fewn y mis bydd yr 'Eco' yn dathlu cyhoeddi ei 400 fed rhifyn.

Fydd y papur yn dal yma ymhen 400 arall?

Eich papur CHI ydi o. Mae eich barn a'ch sylwadau yn cyfrif.

Nodwch y dyddiad yn eich dyddiadur a dewch i gefnogi.

ECO'r Wyddfa

RHIF 398
EBRILL 2012
Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Straeon ac erthyglau
ar e-bost i
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com

CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH
Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (677263)
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION
Eifion Roberts, Swn-y-Gwynt, Llanberis (870740)
eifionroberts132@btinternet.com

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD BWNDELU
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)
BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran (01248) 670726
BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed (870580)
CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn Gwna (677438)
CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)
CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)
DINORWIG: Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)
LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts, Swn-y-Gwynt (870740)
LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn (675384)
NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon (871820)
PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)
TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry, Ael-y-Bryn (872276)
WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF
Deunydd i law'r golygyddion perthnasol
NOS SUL 15 EBRILL
Os gwelwch yn dda
Dyddiad Gosod
NOS IAU, 19 EBRILL
Sefydliad Coffa Llanrug
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, 26 EBRILL

DYDDIAD ALLEOLIAD PLYGU'R ECO 2012

Rhifyn	Copi	Gosod	Plygu	Ble
Mai	15 Ebrill	19 Ebrill	26 Ebrill	Deiniolen
Mehefin	20 Mai	24 Mai	31 Mai	Brynrefail
Gorffennaf	17 Mehefin	21 Mehefin	28 Mehefin	Bethel

LLYTHYRAU

Annwyl Ddarllenwyr

Cymdeithas Bob Owen

Cynhelir Ffair Lyfrau yn y Neuadd Goffa, Ffordd Caer, Wrecsam ar ddydd Sadwrn, 19 Mai 2012, o 10 y bore tan 3.30 y prynhawn. Cost mynediad yw £150. yn cynnwys paned.

Bydd yno amrywiaeth o Lyfrau hen a newydd Cymraeg a Saesneg (gyda phwyslais yn ymwneud â Chymru). Cardiau Post, Recordiau, Cryno ddisgiau a hen greiriau. Dowch â nhw i'w gwerthu os oes rhai gennych. Gallwch logi stondin/bwrdd am £15 y bwrdd.

Yn flynyddol mae'r ffair yn boblogaidd iawn felly y cyntaf i'r felin.... Beth am gysidro trefnu bws i'r ffair – siopa ac ymweld â chanolfan newydd y Cymry yn y 'Saith Seren', Ffordd Caer, rhyw bum munud o'r Neuadd lle mae'r Ffair.

Croeso cynnes i bawb.

Cysylltwch â Elwyn Williams, 23 Ffordd Elfed, Wrecsam.

Annwyl Olygydd,

Senghennydd – y drychineb a Thrawsfynydd

Derbyniodd y wasg gopi o gerdyn post gan John Roberts, Caerffili. Cerdyn o'r 'Welsh Methodist Chapel' Senghennydd ydi o, ond mae'r neges ar ei gefn yn ingol. Llwyddwyd i wasgu pryder, galar a thristwch y danchwa yng ngwaith glo'r Universal i'r mymryn o ofod a ganiateir, 'This space for correspondence'.

Mae'r cerdyn wedi'i gyfeirio at Mrs I. (neu J.) Roberts, No 5 Ardudwy, Station Road, Trawsfynydd, North Wales ac wedi ei stampio gan y post am 3.15, 15fed Hydref 1913. Digwyddodd y drychineb dan ddaear am 8.10 bore'r 14eg Hydref.

Annwyl Rienni, Dest air neu ddau atoch gan fawr obeithio eich bod iach yno. Mae yn debyg eich bod wedi clwad am y taniad yn Senghennydd. Mi ydwyf fi yma er ddoe. Nid ydynt wedi dod o hyd i Jack Davies etto. Mae na cannoedd nad ydynt yn medru mynd attynt yno etto. Mae nhw wedi dyfod a Will a Jack Tynllyn fynu yn saf y boreu yma. Mae na llawer oddi yma i lawr etto Mi gewch y manylion etto. Ydwyf, Bob.

Uwch ben y geiriau 'This space for correspondence;', ychwanegwyd:

Mae meibion Ann Jones wedi eu lladd. Mae Edmwnd beth bynnag am Evan.

Lladdwyd 439 o lowyr yn nhanchwa Senghennydd a bydd canmlwyddiant cofio'r drychineb y flwyddyn nesaf. Bydd Gwasg Carreg Gwalch yn cyhoeddi cyfrol o straeon, toriadau papur newydd, cerddi a lloffion fel hyn i gofio'r hanes a'r dioddefaint. Os oes gan unrhyw un o'ch darllenwyr stori neu loffion, byddwn yn falch iawn o glywed oddi wrthynt.

Myrddin ap Dafydd
Gwasg Carreg Gwalch (01492 642031)
myrddin@carreg-gwalch.com

Llygad yr Haul, Penisarwaun

Annwyl Gyfeillion

Mae'n amser wedi dod i mi roi'r ffidil yn y to, ac felly ni fyddaf yn sefyll i fynd ar Gyngor Gwynedd ym mis Mai.

Rydw i'n diolch o waelod calon i chi am y gefnogaeth a gefais gennych ar hyd y blynyddoedd a hefyd diolch yn fawr am y croeso rwyf wedi ei dderbyn gennych wrth i mi fynd o gwmpas yr ardal. Yn sgil fy ngwaith fel Cynghorydd, bu'n bleser ac yn fraint dod i adnabod nifer fawr o drigolion y fro, a dod yn gyfeillgar â llawer ohonoch.

Gwn y byddwch yn rhoi'r un gefnogaeth a chroeso i'r cynghorydd newydd. Wrth reswm, mi fyddaf yn ei helpu yn ei waith, gorau medraf.

Unwaith eto diolch yn fawr i chi a phob dymuniad da i'r ardal unigryw hon.

Pat Larsen

RHODDION

£20: Betty Humphreys, Coed y Ddôl, Llanberis; Pat Larsen, Llygad yr haul, Penisarwaun.

£10: Er cof am Arthur Wyn Rowlands gan Meira a'r plant, 17 Rhydfadog, Deiniolen; Eurwyn a Pearl Williams, Parc ,Waunfawr; Mrs Jennie Williams, 1 Rhydfadog, Deiniolen; Er cof am Elinor; Teulu Rhyddros, Penygroes. Er cof am Eurwen Owen Hafan Elan, Llanrug.

£5: Ceris a Lynda Ellis, Cremlyn, Bethel; Buddug Wakeham, Newton Street, Llanberis; Mrs Buddug Thomas, 5 Rhydfadog, Deiniolen; Ann Thompson a'r teulu, Rhosgadfan; Myra Griffith, 6 Bryn Eglwys, Penisarwaun.

Tŷ Croes, Crymlyn
Abergwyngregyn
Llanfairfechan. LL33 0LU

Annwyl Olygydd,

Gan y bydd eleni yn ddeugain mlynedd ers i ni i gyd gyfarfod gyntaf, rydw i'n ceisio cysylltu â chymaint â phosib o'r rhai oedd, fel fi, yn cychwyn yn y Coleg Normal ym Mangor ym Medi 1972. A'r rheswm yw ein bod yn trefnu Aduniad ym mis Medi eleni i ni gael un cyfle arall i fwynhau cwmni ein gilydd cyn i ni i gyd ymddeol!

Bydd yr Aduniad yn cael ei gynnal ar nos Sadwrn, 15 Medi, yn y Ganolfan Rheolaeth, sef hen ffreutur y Coleg Normal, ar Ffordd y Coleg, Bangor Uchaf. Bydd y pryd tri chwrs yn costio £25 ac mae'n bosib i nifer cyfyngedig archebu ystafell i aros dros nos yn hen adeilad Neuadd Eryri – sy'n dipyn mwy moethus erbyn heddiw.

Rwy'n gofyn am flaendal o £10 erbyn 30 Mehefin. Am fwy o fanylion neu ffurflen gais cysylltwch â mi yn y cyfeiriad uchod neu trwy ebost rhiantom@hotmail.com

Edrychaf ymlaen at glywed gan lawer o hen ffrindiau.

Yn gywir iawn

Rhiannon Thomas

Cynllun Lleol Newydd Cyngor Gwynedd

Dros y misoedd diwethaf mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn ymgynghori a gwahodd sylwadau wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol a fu'n rheoli datblygu a dynodi tir adeiladu yn ein cymunedau dros y blynyddoedd sydd o'n blaen.
Yma ym Methel mae nifer o gyfarfodydd wedi eu cynnal gyda mudiadau a chymdeithasau'r ardal, yn dilyn fe gynhaliwyd dydd agored er mwyn rhoi sylwadau'r gweithgor o flaen y pentref. Mae'n bleser dweud fod diddordeb a cefnogaeth gref wedi bod i'r holl drafodaethau.
Mae ein sylwadau wedi ei anfon i'r Uned Bolisi Cynllunio fel a ganlyn:

13 Chwefror 2012.
Mrs. Nia H. Davies
Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd
Cyngor Gwynedd
Neuadd y Dref
Bangor, Gwynedd
LL57 1DT

Annwyl Mrs. Davies,
Cynllun Datblygu Lleol
Mae canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn glir yn ei gyngor ar y pwyslais y dylid ei ystyried pan yn casglu gwybodaeth sydd i'w ystyried gan gynghorau lleol wrth baratoi Cynllun Drafft o'r Cynllun Datblygu Lleol.
Mae'r wybodaeth yma yn seiliedig ar wybodaeth a gasglwyd ac ar ymateb i'r gymuned leol ar safleoedd adeiladu (cynllunio) economi a chymdeithasol.
Drwy ystyried mai'r ffynhonnell orau o wybodaeth am anghenion a disgwyliadau'r fro yw drwy'r trigolion eu hunain ac i'r perwyl yma fe gynhaliwyd cyfarfodydd ar 5ed a 16eg Ionawr 2012 gyda Arddangosfa Gyhoeddus o'r holl argymhellion yn Neuadd Goffa Bethel rhwng 10.00-12.30, 1.30-5.00 a 6.30-8.30 Gwener 10ed Chwefror 2012, ble dangoswyd cefnogaeth unfrydol i sylwadau'r gweithgorau.
Mudiadau yn bresennol yng nghyfarfod 5ed a 16ed. Ionawr 2012
Clwb Bro Bethel, Capel Bethel, Capel Cysegr, Cyngor Cymuned Llanddeiniolen, Clybiau Pêl-droed Oedolion a Merched, Eglwys Llanddeiniolen, Merched y Wawr, Neuadd Goffa, Timau Darts a Pŵl Y Bedol, Clwb Snwcer, Ysgol Bethel, Cangen yr Urdd, Cangen Plaid Cymru.
Atodaf is-law argymhellion y ardal at eich sylw
1. Cynllunio – Trafodwyd Ffin Datblygu sy'n berthnasol i Bentref Bethel sydd yn cynnwys oddeutu 400 annedd. – Bu trafodaeth helaeth ar hawliau cynllunio sy'n bresennol yn weithredol a chyfeiriwyd at y ffaith fod tir wedi ei benodi yn y cynllun presennol ble fod posibilrwydd o godi 24 uned gyda nifer dderbyniol o'r rhain at ddiben fforddiadwy.
Fod Stad Bro Eglwys eto i'w chwblhau gyda hawl yn bodoli i adeiladu 12 tŷ, a'r hawl yma mewn bodolaeth ers beth bynnag 40 mlynedd (mae 36 eiddo wedi eu codi yn barod ym Mro Eglwys)
Yn ystod y cynllun presennol mae 11 hawl ychwanegol wedi eu caniatau gyda 5 o rhain wedi ei gweithredu.
Drwy gyfeirio at fap o'r pentref roedd yn amlwg fod tir sylweddol ar gael o fewn y ffin ddatblygu bresennol at ddefnydd adeiladu os buasai perchenogion y tir yn penderfynu gwneud hyn.
Mae trigolion y pentrefi yn ymwybodol fod pwysau wedi bod i adeiladu anheddau tu allan i'r ffin datblygu bresennol. 'Roedd barn y cynrychiolwyr yn adlewyrchu barn y pentref yn gyffredinol na ddylid caniatau hawliau o'r fath oherwydd y nifer o hawliau sydd heb eu gwireddu yn y pentref.
Penderfyniad trigolion yr etholaeth yw na ddylai'r Cynllun Lleol gynnwys unrhyw ymestyniad i'r ffin ddatblygu bresennol am y rhesymau canlynol.
a) Fod digon o hawliau cynllunio yn bodoli i ddiwallu angen y pentref a'r fro gysylltiedig, sef 18 hawl heb ei gweithredu.
b) Fod 24 hawl ychwanegol yn barod ar gael ar dir sydd wedi ei ddynodi o fewn y cynllun Unedol presennol.
c) Fod tir sylweddol ychwanegol yn barod o fewn y ffin sy'n addas at adeiladu os buasai'r perchenogion yn dymuno hyn.
d) Mae'r pentref yn lle bywiog a chymdeithasol ac mae'n hanfodol fod ei galon, sef canol y pentref, yn cael gorffen ei ddatblygu cyn hyd yn oed cysidro ymestyn y ffin bresennol neu adeiladu tu allan i'r ffin bresennol. Mae cyflwr tir adeiladu ynghanol y pentref, sef Stad Bro Eglwys, yn gywilyddus a dylid gweithredu ar frys i gael y datblygwr i orffen ei waith. Heb hyn bydd pwysau mawr yn dod i ymestyn y pentref a gadael ei ganol yn ddiffaith, bydd hyn yn amharu ar hyder y trigolion ac yn effeithio yn andwyol at agosatrwydd y Gymdeithas.
Dylid dal sylw hefyd nad yw'r Gymdeithas yn gwrthwynebu datblygu ymhellach ond ei bod yn unfrydol fod digon o hawliau neu darpar hawliau yn bodoli'n barod, unwaith y bydd symud ar rhain yna bydd posib cael cytundeb y mwyafrif at ddatblygu synhwyrol at y dyfodol.
2. Economi – Mae Bethel/Seion yn ganolog at y farchnad waith sy'n bodoli yng Nghaernarfon, Bangor a Glannau'r Fenai. Er hyn mae nifer dda o fusnesau wedi eu lleoli o fewn yr etholaeth. Mae rhain yn cyflogi nifer sylweddol, gyda effeithiolrwydd eu busnes yn dibynnu ar gysylltiadau'r we. Yn ogystal mae nifer o gwmniau bychan wedi eu sefydlu gyda eu busnes yn dibynnu'n hollol ar gysylltiadau'r we. Dylai Bethel/Seion gael eu datblygu ymhellach i'r cyfeiriad yma oherwydd ein bod mewn sefyllfa arbennig gyda'r llinell cysylltiad cyflym sef Bandllydan (cynllun Llywodraeth Cynulliad Cymru) yn rhedeg drwy ganol pentref Bethel. Er hyn mae cyflymdra cysylltiadau'r fro yn araf dros ben.
Mae un cwmni sydd wedi sefydlu yma 'nawr yn cysidro ail leoli oherwydd y broblem yma.
Ymhellach at hyn, rwyf wedi cael trafodaethau gyda cwmni Netserve, sydd fel canlyniad wedi gwneud cais i Lywodraeth y Cynulliad am y grantiau sydd ar gael i sefydlu cysylltiad cyflym.
3. Cymdeithasol – Mae nifer dda o gymdeithasau a mudiadau yn eithriadol weithgar yn y fro. Mae cyfarfodydd a gweithgareddau y mudiadau yma yn ogystal a nifer helaeth o ddigwyddiadau annibynnol yn cael eu cynnal yn y Neuadd Goffa neu yn yr addoldai
Dros y blynyddoedd nid yw cyfleusterau'r Neuadd Goffa yn diwallu angen y defnyddwyr. Er fod arian grant wedi ei dderbyn rhai blynyddoedd yn ôl at uwchraddio'r ffenestri a'r gwres canolog, aflwyddiannus fu'r ymdrech o atgyweirio'r to oherwydd y gost.
Un rhan hanfodol o wasanaethau'r pentref yw'r feddygfa, yn anffodus nid yw'r Neuadd bellach yn ymateb gofynion cynnal gwasanaeth o'r fath oherwydd problemau sy'n gysylltiedig â'r adeilad.
Ar hyn rwy'n disgwyl manylion pellach gan adran datblygu'r cyngor.
Yn gywir
Huw P. Hughes
Cynghorydd Plaid Cymru Bethel/Seion
Nodir fod cyfeiriad at Bandllydan, fel dilyniant mae cwmni Netserve wedi dosbarthu gwybodaeth o amgylch yr etholaeth, a mae'n dda dweud fod cefnogaeth gref i'w bwriadau. Mae'r cwmni yn barod yn gwenud cais i'r Cynulliad Cenedlaethol am arian Grant Cymunedol, felly gobeithir bydd symud ymlaen gyda'r cynllun cyflawn yn y ddau fis nesaf.
Os am fwy o wybodaeth cysylltwch ar 01248 670 666 neu drwy huw.hughes@lineone.net

TAITH TRÊN EISTEDDFOD YR URDD ERYRI 2012

Trwy garedigrwydd Rheilffordd Ffestiniog ac Eryri mae Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Yr Urdd Eryri yn trefnu taith ar y trên o Borthmadog i'r Waunfawr ac yn ôl brynhawn Sul, Ebrill 22. Bydd y daith yn cychwyn o Borthmadog am 12.00 ac yn ôl ym Mhorthmadog am 16.00

Y pris fydd £10 y tocyn (plant dan 5 oed ar lin am ddim) gyda'r holl elw i gronfa'r Eisteddfod.

I archebu tocynnau cysyllter â Geraint Elis 01248670726 neu Dafydd Efans 01286 872276

CLWB BRO BETHEL. Braf iawn oedd i henoed y pentref cael gwahoddiad eleni eto i'r Ysgol ar Ddydd Gŵyl Dewi i gael eu diddanu gan blant yr Ysgol. Ac fel y dywedodd Geraint Elis, wrth ddiolch, 'cafwyd gwledd yn gwrando ar dalentau ifanc yn canu, adrodd a dawnsio yn gelfydd iawn, a chafwyd dwy eitem offerynnol hefyd'. Yn ychwanegol at hyn i gyd roeddent wedi sicrhau bod pawb yn cael paned a chacen tra'n gwrando ar yr adloniant. Cyflwynwyd rhodd ariannol i'r Ysgol fel gwerthfawrogiad o'r cyfan gan aelodau'r Clwb. Yn anffodus roedd Llywydd y Clwb y Parchedig Marcus Wyn Robinson yn methu bod yn bresennol.

CAPEL Y CYSEGR. Gŵyl Ddewi

Plant yr Ysgol Sul oedd yn cymeryd rhan mewn addoliad i ddathlu Gŵyl Ddewi. Croesawyd pawb ynghyd gan Myfanwy Harper, Arolygwr yr Ysgol Sul. Cafwyd cyfraniadau gan bob dosbarth yn cyflwyno nifer o chwedlau a hanesion ar lafar ac ar gân. Cyfraniad y plant lleiaf oedd canu 'Dyn Da oedd Dewi', cafwyd stori Bartimeus gan ddosbarth arall, cân gan y bechgyn, 'Cymru ydym ni' a chyfraniad unigol gan Heledd, Gwenllian ac Elen. I gloi bu i'r holl blant ganu 'Y diwrnod cyntaf o Fawrth.' Roedd nifer dda o rieni a chyfeillion wedi troi allan i gefnogi'r plant a bu i bawb fwynhau paned a sgwrs yn y Festri cyn mynd adref. Roedd casgliad rhydd, sef £96.15 yn mynd tuag at Llyfrau Llafar Cymru, er budd y deillion.

Rhodd

Yn ystod gwasanaeth bore Sul yn ddiweddar, cyflwynwyd rhodd o gloc hardd i'r Capel gan Manon, Meinir a Menna er cof am eu tad, Collwyn Williams. Diolchodd y Gweinidog yn gynnes iawn i'r merched am eu haelioni.

DIWRNOD AGORED CYLCH MEITHRIN - dewch ar frys!

Rhwng 9 a 10.30 fore Ebrill 20fed, bydd Cylch Meithrin Bethel yn cynnal diwrnod agored er mwyn cwblhau ceisiadau mynediad eich plant ar gyfer blwyddyn yn cychwyn Medi 2012.

Bydd yn gyfle gwych i gyfarfod gyda staff y Cylch a rhieni eraill, wrth ddod i ddeall pa wasanaethau mae'r cylch yn ei gynnig ar gyfer eich plentyn.

Mae'n ofynnol i'ch plentyn fod yn 2½oed cyn Chwefror 2013 i sicrhau lle yn ystod y flwyddyn.

Cynhelir cyfle ychwanegol i gofrestru yn 'Ti a Fi' fore Mercher, Ebrill 25ain, rhwng 9 a 10.30 y bore yn Festri Capel Cysegr, Bethel.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Hayley Roberts ar 07767362312 neu ebostiwch: Cylchmeithrinbethel@gmail.com

CAPEL Y CYSEGR. Gwasanaethau mis Ebrill:

Ebrill 1af:Y Parch Eifion Williams

Ebrill 8fed: Y Gweinidog

Ebrill 15fed: Y Parch R.E. Hughes

Ebrill 22ain: Y Gweinidog

Ebrill 29ain: Y Parch W.R. Williams

MERCHED Y WAWR

I ddathlu Gŵyl Ddewi eleni aeth rhai o aelodau'r gangen i Westy Meifod, Bontnewydd am ginio nos Fercher, Mawrth 14, a gwahoddwyd Ann Hopcyn i ymuno â ni.

Croesawodd Glenys, yr is-Lywydd bawb ynghyd, a chafwyd gwybodaeth am y gohebiaeth a ddaeth i law. Dymunwyd gwellhad buan i Nancy Williams sydd wedi derbyn triniaeth yn ddiweddar, gan anfon ein cofion ati.

Ar ôl mwynhau'r cinio ardderchog, gwaith pleserus iawn i Glenys oedd croesawu Ann Hopcyn i'n diddanu – un a fu yn aelod gwerthfawr iawn o'r gangen tra yn byw ym Methel rai blynyddoedd yn ôl bellach. Cyfrannodd yn helaeth i fywyd y pentref drwy ei hymroddiad a'i dawn, yn enwedig yr Eisteddfod bentref ac Adran yr Urdd.

Mewn awyrgylch gartrefol, cyflwynodd Ann amrywiaeth wych o eitemau ar gân ac ar y piano, a oedd yn seiliedig ar wahanol gyfnodau o'i bywyd dros y blynyddoedd. Cyd-ganwyd ambell gân a chafwyd dau gwis llenyddol a cherddorol gyda chyfle hefyd yn ystod y noson i orffen limrig. Da iawn, Rita, am ddod i'r brig.

Diolchodd Glenys i Ann am noson arbennig ac i'r rhai a ofalodd am y raffl ar y noson. Yr enillwyr lwcus oedd Eirlys Williams, Alice, Nora ac Edith.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Festri Cysegr am 7.30 nos Fercher, 11 Ebrill, pryd y bydd Bethan Wyn Jones yn rhoi sgwrs ar Blanhigion Meddyginiaethol.

DYMUNA Ceris a Lynda Ellis ddiolch o waelod calon i'r teulu, ffrindiau a'r holl gymdogaeth am eu cymorth a'u cydymdeimlad ar golli eu mab, Arwel, yn ddiweddar.

Diolch am y rhoddion hael sydd wedi eu trosglwyddo i Ambiwlans Awyr Cymru. Hefyd diolch i'r Parchedig Marcus Wyn Robinson am ei wasanaeth tyner a theimladwy, hefyd Mr Gwynfor Jones, Llanberis am y trefniadau gofalus.

MARATHON LLUNDAIN. Bydd Dafydd Jones Tan y Buarth yn rhedeg Marathon Llundain ddydd Sul, Ebrill 27, er budd Cymdeithas Stroc. Byddai Dafydd yn ddiolchgar o dderbyn noddwyr tuag at yr achos teilwng hwn. Gellir cysylltu â Dafydd ar 01248 670084.

DIOLCH. Dymuna Myra Griffith, 6 Bryn Eglwys, Penisarwaun, ddiolch i'w ffrindiau ym Methel am y cardiau, galwadau ffôn, ymweliadau a rhoddion wedi ei thriniaeth yn Ysbyty Broadgreen, Lerpwl.

DYMUNA Ceris a Lynda Ellis ddiolch o waelod calon i'r teulu, ffrindiau a'r holl gymdogaeth am eu cymorth a'u cydymdeimlad ar golli eu mab, Arwel, yn ddiweddar.

Diolch am y rhoddion hael sydd wedi eu trosglwyddo i Ambiwlans Awyr Cymru. Hefyd diolch i'r Parchedig Marcus Wyn Robinson am ei wasanaeth tyner a theimladwy, hefyd Mr Gwynfor Jones, Llanberis am y trefniadau gofalus.

CYMDEITHAS LENYDDOL. Cafwyd noson ddiddorol iawn yn Festri Capel Cysegr, nos Fawrth, Mawrth 20ed, yn gwrando ar ein darlithydd gwadd, Brenda Wyn Jones, yn codi'r llen ar fywyd ym Methesda a'r cylch yng nghyfnod y Streic Fawr. Yn gelfydd iawn daethom yn ymwybodol fod y Streic yn effeithio ar fywyd y teuluoedd, ac amodau byw yn newid fel canlyniad i ddiffyg arian dybryd. Roedd yn yr ardal gyfoeth o ddiwylliant ac yn y cyfnod yma ffurfiwyd côr Merched a fu yn brysur yn mynd o amgylch i gadw cyngherddau er codi arian i deuluoedd y streicwyr. Dysgasom fod y côr yn teithio am gyfnod o bythefnos ac yna adref am bythefnos. Roedd hyn ynddo ei hun yn brofiad newydd eithaf pleserus i lawer. Arferent gael lle i gysgu yng nghartrefi caredigion yn y trefydd a'r dinasoedd yr ymwelent â hwy. Effeithiai'r Streic ar fywyd y plant yn yr Ysgolion a chedwid rhai adref rhag iddynt gael ei gwatwar ar y ffordd.

Diolchwyd iddi yn gynnes iawn gan Lywydd y Gymdeithas, y Dr Elwyn Hughes. Bydd y cyfarfod nesaf, sef Cinio pen tymor ar Ebrill 17. Cysylltwch â Nora Parry neu Sheila Roberts am ffurflen a'r manylion.

Cofiwch ddefnyddio
SWYDDFA POST BETHEL
(01248) 670261
Cewch groeso cynnes gan **CLED A SUSAN**
Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yswiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.
A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant • Tynnu Pres (Cashback)
ORIAU AGOR
6 a.m.–7.30 p.m. (Llun–Sadwrn)
6 a.m.–3 p.m. (Sul)

BYSUS RHIWLAS
Bysus bach a mawr ar gael ar gyfer pob math o logi preifat – nosweithiau allan, partion, tripiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

(01248) 361044
D. P. OWENS RHIWLAS

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts -Williams. Ffôn: 870580

SEFYDLIAD Y MERCHED. Daeth yr aelodau ynghyd nos Iau, Mawrth 1af, i ddathlu Gŵyl Ddewi gyda chinio yng Ngwesty Padarn Lake, Llanberis.

Roedd cyfarfod y mis ar Fawrth 15fed, pryd y croesawyd Geraint Roberts fel gŵr gwadd. Bu'n trafod nifer o'i weithgareddau diweddar, yn arbennig troedio llwybrau. Yn dilyn ei ymchwil i hanesion yr ardal, cyflwynodd nifer o ffeithiau diddorol a fwynhawyd gan bawb. Cafwyd gair o ddiolch gan y llywydd, Pat Jones, a balch oedd yr aelodau ei gweld yn bresennol yn dilyn ei thriniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Mae'r aelodau yn edrych ymlaen nawr i gefnogi Tîm A gornest ddartiau y Ffederasiwn yn y rownd derfynol a gynhelir yng Nghlwb Golff Pwllheli nos Lun Ebrill 23ain am 7 o'r gloch.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD OEDFAON EBRILL

1 am 5.30: Mr Dafydd Iwan, Caeathro

8 am 2.00: Parch Geraint Roberts, Porthaethwy

Oedfa'r Pasg. Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd

15 am 2.00: Parch Olwen Williams, Tudweiliog

22 am 5.30: Parch John Owen, Bethesda

29 am 5.30: Parch Gwenda Richards, Caernarfon

• Priodasau • Dathliadau
• Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
• Pwyllgorau • Bwydlen Bar

THE LEGACY
ROYAL VICTORIA HOTEL
LLANBERIS

wrth droed yr Wyddfa

Ffôn: 08444 119 003

FFRAMIA
Parc Padarn, Llanberis
(01286) 870922
www.fframia.com
www.fframia.com
Gwasanaeth Fframio Lluniau
Dewis eang o luniau yn yr Oriel ac ar y wefan
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy.

HELFA WYAU PASG
Hwyl i'r teulu oll
Gwobrau i'r plant
Ebrill 6-10 2012
Agor yn ddyddiol
10.30—4.00
Rheilffordd Llyn Padarn
Llanberis Lake Railway
Parc Padarn, Llanberis, LL55 4TY
01286 870549

CAEATHRO

Grantiau'r Cyngor Cymuned. Dylai mudiadau sydd am ofyn am gymorth ariannol gan Gyngor Cymuned Y Waunfawr cyflwyno eu ceisiadau erbyn 1 Ebrill 2012 ar gyfer ystyriaeth gan y Cyngor yr wythnos ganlynol. Yn y llythyr mae'n hanfodol esbonio paham fod angen y swm, y nifer o aelodau sy'n byw yn ardal Y Cyngor a'r Fantolen ddiweddaraf. Y Clerc yw Shoned Griffith, Tŷ Awelon, Y Waunfawr, Caernarfon.

Cyngor Cymuned Y Waunfawr. Bydd etholiadau ar gyfer y Cyngor Cymuned ar ddydd Iau, 3 o Fai. Mae'r Cyngor yn cynnwys dau aelod ar gyfer Ward Caeathro a naw ar gyfer Ward Y Waunfawr. Mae'r cyfarfodydd tua phob 6 wythnos, gyda 2 neu 3 ohonynt yng Nghaeathro. Mae'r Cyng. Clive James wedi datgan yn gyhoeddus ei benderfyniad i beidio ag ail-sefyll ar gyfer etholiad. Deallwn fod y Cynghorydd arall - sydd wedi'i chyfethol i'r sedd [a oedd yn wag am flwyddyn ar ôl Etholiad 2009], wedi penderfynu sefyll yn Ward Y Waunfawr. Dylai ymgeiswyr am seddi gasglu ffurflenni o Uned Etholiadau Cyngor Gwynedd yn Swyddfa'r Sir a'u dychweled rhwng 20 Mawrth a 12:00 ar 4 Ebrill 2012. Pwy sy'n fodlon sicrhau fod etholwyr a thrigolion Caeathro yn derbyn chwarae teg yn y Cyngor Cymuned, er enghraifft gyda'r dosrannu arian i fudiadau gwirfoddol Caeathro?

Baw ci - eto. Mae'r olwg diflas o faw ci ar balmenti ac ochrau ffyrdd y fro, wedi dod i'r golwg unwaith eto. Mae'n syndod faint sy'n cael eu gollwng yn union o flaen giât tŷ. Yn groes i'r ymarferiad budr yn y lloches i deithwyr bws, gwelir patrwm yn y gweithredoedd. Felly mae Wardeiniaid Cŵn Cyngor Gwynedd wedi cael eu hysbysu o'r torcyfraith gyda'r bwriad o ymweld â'r fro gyda'r amcan o ddal y perchnogion diofal, eu llusgo i'r llys ynadon gyda'r gobaith o'u dirywio'n drwm. Dim ond un cam yn well yw'r arferiad o gasglu baw'r ci a'i gynnwys yn un o'r bagiau bach pwrpasol - ac wedyn gadael y bag - a'i gynnwys, ar ochr y lôn. Beth am gwblhau gwaith a chludo'r bag at fan gwaredu cyfreithlon?

Helfa Wyau Pasg. O dan gefnogaeth ariannol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro - trwy garedigrwydd hap-chwaraewyr Tynfa Fisol y Gymdeithas, unwaith eto eleni bydd Helfa Wyau Pasg i blant yr Ysgol Gynradd ac iau. Bydd y daith i'r Helfa yn cychwyn am 11:15 ddydd Sul y Pasg, 8 Ebrill, o faes parcio Tafarn Bryngwna. Diolch yn fawr unwaith eto i Bethan ym Mhryngwna am ganiatâd i'r ymgasglu yna.

Serenifanc. Llongyfarchiadau mawr i Cara Elin Jones, Tŷ Newydd, sy'n chwarae pêl-droed gyda thîm Genod Llewod Llanrug. Ar ôl y treialon ar 10 Mawrth dewiswyd hi i chwarae i Dîm Genod Gogledd Cymru o dan 10 oed. Bydd y gêm gyntaf yn erbyn de Cymru yng Nghaerdydd ar Fehefin 23.

Tynfa Fisol Cymdeithas y Cae Chwarae. Enillwyr y Dynfa Fisol ym mis Mawrth oedd y canlynol:

1af - £40; rhif 43, Gwenda Jones, Plas Glangwna; 2il - £25; rhif 103, Edwina Wyn, Bryn Eden; 3edd - £15; rhif 2, Peter Evison, Cae Hopcyn; 4edd - £5; rhif 1, Bethan Iwan, Carrog.

Cydymdeimlwn gyda Marian Hughes, Tŷ Mawr, ar ôl marwolaeth ei brawd, Idris, a fu'n byw yn Llundain.

Ymddeoliad. Dymunwn ymddeoliad hir, iach a hapus i Clive James, Hafan, sydd wedi ymddeol ar ôl gweithio am bron i ddeugain mlynedd i Gyngor Sir Gaernarfon, Cyngor Sir Gwynedd a Chyngor Gwynedd. Pa anturiaethau mawr sydd o'i flaen o?

Newyddion y Capel. Cynhelir y cyfarfodydd canlynol ym mis Ebrill:

Sul 4edd: 11:00 Ysgol Sul; 2:00 Gweinidog

11eg: 11.00 Ysgol Sul

18fed: 10:00 Mr John H. Hughes; 11:00 Ysgol Sul

25ain: 11:00 Ysgol Sul

Ysgol Cwm y Glo

Ymweliad Awyr Agored: Treuliodd Blwyddyn 6 noson yn Nhan y Bwlch, Maentwrog, tra'n cael cyfres o weithgareddau daearyddol awyr agored yn yr ardal. Diolch yn fawr iawn i bawb yn y ganolfan am eu croeso - roedd pawb yn flinedig ond wedi mwynhau.

Aeth pawb o'r adran iau draw i Lanberis ac i'r Mynydd Gwefru yn Chwefror. Ymweliad diddorol gyda'r plant yn llawn cwestiynau wedi eu taith i grombil y mynydd.

Daeth y consuriwr Howard Hughes draw gyda sioe 'Bygia Baco' ar gyfer y plant. Neges bwysig yn cael ei chyflwyno i'r plant mewn ffordd hwyliog braf!

Mae plant dosbarth Marchlyn wedi cychwyn cyfnod o weithgareddau awyr agored ac addysg gorfforol yn Mrynteg. Rydym yn gwerthfawrogi y cyfle i gael defnyddio adnoddau arbennig y safle ac yn diolch yn fawr iawn i Mr. James McAllister am roi y cyfle i'r plant. Codwch law ar y plant os ydych yn eu gweld yn cerdded o'r ysgol am Frynteg pob wythnos!

Cafodd plant dosbarth Peris fwynhad o weld y neuadd yn llawn o greaduriaid y môr un prynhawn. Cyflwyniad gwych i'r holl greaduriad sydd yn byw yn y môr yn yr ardal gafwyd gyda neges bwysig am beidio gollwng sbwriel oherwydd y niwed Y gall wneud i'r creaduriaid.

Eisteddfodau: Mae pawb wedi bod yn brysur yn ymarfer ac yn cystadlu yn holl eisteddfodau'r cylch yn ystod y mis. Daeth llwyddiant i'r parti dawnsio gwerin ac i Catrin Smith ar yr unawd alaw werin a mae pawb yn dymuno yn dda iddynt yn Eisteddfod y Sir ym Mangor. Ein llongyfarchiadau mawr i bawb arall fu'n cystadlu – unawdwyr, y côr, y parti, unawdwyr offerynnau a'r grŵp dawnsio disgo. Diolch yn fawr iawn i bawb fu'n cynorthwyo gyda'r hyfforddi, y gwisgoedd, y cyfeilio a'r stiwardio!

Bu dwy fyfyrwraig o'r Brifysgol yn treulio cyfnod o brofiad gyda ni yn ddiweddar – Miss Thomas a Miss Owen. Gobeithio eich bod wedi mwynhau cwmni y plant a'n dymuniadau gorau i chi ar gyfer y dyfodol.

Rydym yn diolch yn fawr iawn i Mr. James McAllister, Brynteg, am ryddhau ei gogydd enwog, Mr. Tom Bridge am ddiwrnod. Treuliodd Tom Bridge brynhawn yn coginio gyda'r plant cyn cynnal noson ddiddorol gyda'r rhieni ac aelodau'r gymuned yn coginio bwyd blasus, iach gyda chynnyrch lleol. Roedd pawb wedi mwynhau – ni fydd prydau'r pentref byth yr un fath!

Mae aelodau o staff yr ysgol wedi ymrwymo i gymryd rhan yn y 'Race for Life' yn mis Mai. Mae nifer o deuluoedd lleol gyda chysylltiadau agos â'r ysgol yn dioddef effaith y salwch blin yma ac mae'r ysgol yn awyddus i ddangos eu cefnogaeth drwy godi arian ar gyfer yr elusen. Cefnogwch mewn unrhyw ffordd os gwelwch yn dda!

UNDEB Y MAMAU.

Cafwyd gwasanaeth tawel yn Eglwys Sant Mair, Caernarfon, bnawn Mawrth, 20 Mawrth, am ddau o'r gloch. Yr oedd y gwasanaeth yng ngofal y Ficer, y Parch Jeffrey Hughes ar Organyddes oedd Mrs Louie Jones. Yn ystod y gwasanaeth cafwyd adroddiad gan y Ficer am H.F. Lyte ar emyn "O aros gyda ni".

Ar ôl y gwasanaeth trafodwyd materion perthnasol gan Mrs Auriel Howels. Anfonwyd dymuniadau am wellhad buan i'r aelodau sydd yn wael.

Gan fod y Ficer yn ymddeol yr oedd rhai o aelodau cangen Llanbeblig wedi trefnu te arbennig a chyflwynodd Mrs Joan Griffith anrheg iddo oddi wrth y gangen. Enillwyd y raffl gan y Ficer a diolchwyd i'r gwesteion am y lluniaeth. Terfynwyd y cyfarfod trwy adrodd y gras yn Gymraeg a Saesneg.

Cyfarfod nesaf 17 Ebrill yn "Feed my Lambs".

YSGOL SUL TABERNACL.

Oedfa Eisteddfod yr Urdd, Parc Glynllifon.

Fore Sul, 3 Mehefin, yn hytrach na chynnal Cymanfa'r Dalgylch, bydd cyfle i holl blant yr Ysgol Sul ddod i'r Oedfa. Pwysleisir – Rhaid i aelodau'r Côr fod ym Mlwyddyn 3 i fyny oherwydd rheolau iechyd a diogelwch. Estynnir croeso mawr i blant o Flwyddyn 2 i lawr ddod i'r Oedfa a hynny yng ngofal oedolyn. Trefnir bws i gludo aelodau, rheini a ffrindiau Ysgolion Sul Capel Coch, Tabernacl, Ebeneser a Bosra. Dyma gyfle i'r plant gael profiad gwerthfawr o gael bod yn rhan o Oedfa a Chymanfa i'w chofio.

Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
alunffred.jones@cymru.gov.uk

Dylan Griffith
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol
TROS-Y-WAEN PENISARWAUN
Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu'r Holl Ardal
Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)

Hefyd

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrhaeddwch Mewn Steil Mewn Cerbyd *Rolls Royce*
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDD ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

Hywel Williams
Aelod Seneddol Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk

CYMDEITHAS CYFEILLION EGLWYS CRIST – LLANDINORWIG. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf o'r Gymdeithas am eleni ar nos Lun, Mawrth 5ed, yn y Faenol Arms, Pentir, i ddathlu Gŵyl Dewi.

Ar ôl dweud Gras Bwyd gan ein Ficer, y Barchedig Ddoethor Carol Roberts, oedd hefyd yn wraig wadd am y noson ynghyd â'i phriod, Mr Dafydd Roberts, mwynhaodd yr aelodau swper rhagorol oedd wedi ei baratoi ar eu cyfer.

Cyn cyflwyno ein gwraig wadd, dymunodd y llywydd, Mrs Rosina Worth, adferiad iechyd buan i ddwy aelod selog o'r Gymdeithas, sef Mrs Jennie Williams a gafodd lawdriniaeth ar ôl cael damwain ond sydd erbyn hyn yn gwella. Hefyd i Mrs Eurwen Roberts fydd yn mynychu Ysbyty Gwynedd ymhen ychydig ddyddiau i dderbyn llawdriniaeth. Pob dymuniad da i'r ddwy.

Pwnc y Barch Carol Roberts oedd Eglwys Dewi Sant, Glanadda, Bangor, oedd yn addas iawn i'r noson, lle bu yn Gurad am dros bedair blynedd. Gan fod yr ardal honno o Fangor yn datblygu ac yn ffynnu, gyda'r rheilffyrdd a diwydiannau eraill, penderfynwyd adeiladu eglwys yno.

Agorwyd a chysegrwyd Eglwys Dewi Sant ym 1888 a'r gost o'i hadeiladu oedd oddeutu rhwng £8,000 a £10,000, oedd yn swm aruthrol yn y cyfnod hwnnw. Yn ffodus iawn derbyniwyd yr arian i gyd yn rhodd gan wraig garedig iawn o Fangor.

Roedd yn pwysleisio Eglwys mor hardd ydyw, yn enwedig y ffenestri lliw unigryw sydd ynddi. Ar ôl clywed hyn i gyd, penderfynodd yr aelodau fynd i ymweld â'r Eglwys yn y Gwanwyn.

Diolchwyd i'r Barch Carol Roberts gan y Parchedig Ganon Idris Thomas a throdd pawb am adref wedi mwynhau y noson yn fawr.

EGLWYS CRIST LLANDINORWIG. Gwasanaethau'r Pasg:

Dydd Gwener y Groglith am 2. y pnawn, Awr Dawel gyda'r Canon Idris Thomas.

Sul y Pasg am 3 y pnawn, Cymun Bendigaid gyda'r Canon Idris Thomas. Croeso cynnes i bawb ddod i'r gwasanaethau hyn.

Mae Eglwys Crist yn ddiolchgar i'r canlynol am y rhoddion i gynnal y Fynwent yn ystod 2011. Bydd yr Eglwys yn ddiolchgar o unrhyw rodd ariannol i gynnal y Fynwent.

Mrs Nannie Evans, 26 Bryntirion, Penisarwaun: £5. Mrs Betty Pritchard, 3 Llys y Gwynt, Penisarwaun: £5. Mrs Gracie Tate, 1 Bro Deiniol: £10. Mrs Eurwen Roberts, 47 Rhydfadog: £10. Mrs Susan Gould, Birmingham: £10. Miss Mair Foulkes, 3 Tai Brynhyfryd, Penisarwaun: £20. Mrs Betty Jones, Tan y Buarth: £10. Mrs Elizabeth Parry Jones, Foel Gron: £10. Mrs Dilys Williams, 7 Llys y Gwynt, Penisarwaun: £20. Mrs Clarice Roberts, Tan-yr-Henffordd: £10. Mrs Elspeth Griffith, Llys: £10. Mr Gareth Jones a'r ddiweddar Mrs Jennie Goldsworthy, 34 Hafod Oleu: £20. Mrs Gwenda Sayer, Caernarfon, er cof am John a Laura Pritchard: £20. Mrs Delyth Pritchard, Y Felinheli, er cof am John a Laura Pritchard: £10. Mrs Elaine Bowser, Llundain, er cof am John a Laura Pritchard: £20. Mrs Margaret Williams, 4 Pentre Helen: £50. Mr a Mrs Ernest Jones, Hafan, Porth y Gogledd: £10. Megan, Mair a Hefin: £20. Mr a Mrs T. Jones, Llys Helyg, Bodedern, Ynys Môn: £25. Mrs Awen Roberts, Rhuddlan: £10. Mr Brian Price, 14 Hafod Oleu: £10. Teulu y ddiweddar Janet Mary Grey: £5. Teulu y diweddar Ivor Pillips: £45.

Ffarwelio. Cynhaliwyd cinio yn Y Caban, Brynrefail i ddiolch i Jean Roberts am ei gwaith fel gofalwraig Clinic Deiniolen am bron i ugain mlynedd. Roedd yn ymddeol o'r gwaith yn ystod y mis diwethaf. Gwelir Jean yng nghanol y rhes flaen gyda gweddill ei chyd-weithwyr.

CYDYMDEIMLWN gyda theulu Mr Stephen Lovell, 1 Gwyrfai Terrace, Clwt y Bont, a fu farw'n frawychus o sydyn yn diweddar.

CLWB PÊL-DROED IEUENCTID. Mae'r clwb yn chwilio ar hyfforddwr ar gyfer y tîm dan 7, yn anffodus mae'n debygol na fydd y plant yn gallu gorffen chwarae gemau ail hanner y tymor os na ellir cael gwirfoddolwr i gynorthwyo gyda'r gwaith. Os oes gan unrhyw un ddiddordeb neu yn gwybod am rywun a all gynorthwyo, cysylltwch gyda Glyn ar 872 133.

Dymuna'r clwb ddiolch o galon unwaith eto am gyfraniad hael Bingo Elidir i'r clwb, fe werthfawrogir eu cefnogaeth yn fawr.

AELWYD YR URDD. Llongyfarchiadau i holl aelodau'r aelwyd a fu'n cystadlu yn ddiweddar yn Eisteddfod Cylch yr Urdd. Cafodd yr aelwyd lwyddiant gyda'r parti cyd-adrodd yn cael y wobr gyntaf, gyda diolch i Eirlys Hughes am eu hyfforddi. Cafodd y parti canu hŷn y wobr gyntaf yn eu cystadleuaeth hwy hefyd, diolch i Lyndsey ac Eleri am eu hyfforddi. Cafodd rhai aelodau unigol hefyd gryn lwyddiant: mi fydd Dafydd Bean ac Osian Hughes yn mynd ymlaen i'r Eisteddfod Sir i gystadlu. Da iawn i bawb a phob lwc yn yr Eisteddfod Sir.



CYDNABYDDIAETH. Dymuna Meira, Kevin a Wendy, 17 Rhydfadog, teulu y diweddar Mr Arthur Wyn Rowlands, ddiolch o galon i'w teulu, cymdogion a ffrindiau am y caredigrwydd mawr a fu iddynt ei dderbyn yn ystod eu profedigaeth.

Diolch i feddygon teulu Llanberis ac Ysbyty Gwynedd a hefyd i'r Parchedig John Pritchard.

Bu'r gwasanaeth angladdol yn Eglwys Ebeneser dan ofal y gweinidog y Parchedigion John Pritchard, Trefor Lewis ac Eifion Williams. Diolch am eu gwasanaeth.

Diolch hefyd i'r trefnwyr angladdau, Gwynfor Jones o E.W. Pritchard Llanberis am ei drefniadau gofalus thrylwyr.

CYMDEITHAS UNDEBOL. Un o blant Dinorwig oedd yn rhoi sgwrs inni ym mis Chwefror yn y Gymdeithas. Soniodd am yr Ambiwlans Awyr a'r gwasanaeth arbennig y maent yn ei roi inni a'r arian ysydd ei angen arnynt i'w gynnal. Cafwodd sawl cwestiwn ei ofyn gan yr aelodau a'u hateb gan Mr Eifion Jones. Llywydd y noson oedd y Parchedig John Pritchard a thalwyd y diolchiadau gan Mr Brian Price.

DIOLCHIADAU. Dymuna Buddug Thomas, 5 Rhydfadog, ddiolch yn fawr iawn i'w theulu, ffrindiau a chymdogion,. Hefyd ei chyd-weithwyr am yr anrhegion, arian, blodau a chardiau ar ei phen-blwydd arbennig yn 60 oed ar 11 Chwefror.

DYMUNA Jennie Williams, 1 Rhydfadog, ddatgan ei diolchgarwch gwresocaf i'w theulu, ffrindiau pell ac agos am yr holl alwadau ffôn, rhoddion a blodau a chardiau a dderbyniodd ar ôl ei damwain.

Mae ei dyled yn fawr iawn i'r Dr Catrin Williams, Mrs Dylan Griffiths a'r Paramedics.

Hoffai ddiolch i'r meddygon a staff Ward Conwy, Ysbyty Gwynedd am eu gofal a'u cymorth.

Hefyd i feddygon a staff Ward Padarn, Ysbyty Eryri am eu gofal a'u caredigrwydd tra bu yno. Diolch hefyd i'r Parchedig Ddoctor Carol Roberts a Mr Derek Jones, Llanberis, am ymweld â hi. Hefyd i Jane a Siân, y Gofalwyr am eu cymorth a'u gwên.

YSGOL SUL EBENESER.

Oedfa Eisteddfod yr Urdd, Parc Glynllifon.

Fore Sul, 3 Mehefin, yn hytrach na chynnal Cymanfa'r Dalgylch, bydd cyfle i holl blant yr Ysgol Sul ddod i'r Oedfa. Pwysleisir – Rhaid i aelodau'r Côr fod ym Mlwyddyn 3 i fyny oherwydd rheolau iechyd a diogelwch. Estynnir croeso mawr i blant o Flwyddyn 2 i lawr ddod i'r Oedfa a hynny yng ngofal oedolyn. Trefnir bws i gludo aelodau, rheini a ffrindiau Ysgolion Sul Capel Coch, Tabernacl, Ebeneser a Bosra. Dyma gyfle i'r plant gael profiad gwerthfawr o gael bod yn rhan o Oedfa a Chymanfa i'w chofio.

LLONGYFARCHIADAU i Mrs Alice Myfanwy Griffith, Tan y Bwlch, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 88 mlwydd oed yn ystod y mis. Gobeithio iddi fwynhau ei diwrnod yng nghwmni ei theulu, hefyd dymunwn well iechyd iddi, gan iddi fod yn cwyno dipyn dros y gaeaf. Dymunwn fel ardal adferiad iechyd iddi i'r blynyddoedd a ddel a llawer pen-blwydd arall.

NEWYDD DRWG. Yn ystod y mis bu i Mrs Margaret Faulkener, Fron Dirion, dderbyn newyddion drwg yn Ysbyty Gwynedd. Gobeithio yn wir ei bod yn anghywir, ac y caiff hi a Rex lawer blwyddyn arall hefo'i gilydd. Dymunwn y gorau ichwi yn ystod y dyddiau a ddel, a y bydd i Dduw wrando eich gweddi. Tra y mae bywyd y mae gobaith.

GWELLA. Da yw deall fod Mrs Alice Thomas, 1 Bro Elidir gynt, sydd wedi bod yn cwyno cryn dipyn, yn gwella erbyn hyn a'i bod wedi gallu mwynhau ei phen-blwydd yn 93 yn ystod mis Chwefror.

CROESO YN ÔL I'R ARDAL. Da yw cael estyn croeso cynnes iawn i'r Parch Idris Thomas a'i wraig, Ann, yn ôl i fyw i Ddeiniolen. Y mae wedi ymddeol yn awr ac wedi dymuno cael dod adref yn ôl i'w gynefin. Yn barod y mae wedi rhoi ei ysgwydd dan y baich ac yn sicr fe fydd yn gymorth mawr i'r ardal. Felly, Idris ac Ann, gobeithio y bydd ichwi setlo i lawr yn eich cartref newydd ac y cewch fwynhau blynyddoedd lawer hefo'ch gilydd. Dymunwn bob bendith ac iechyd ichwi eich dau i'r blynyddoedd a ddel.

DYDD O RODDION YN NEINIOLEN. Cafwyd dau ddiwrnod o roddion yn ystod y mis yn Neiniolen, gan fod angen arian i wneud gwelliannau i Festri Ebeneser. Bu'r ddau ddiwrnod ym yn llwyddiant ysgubol gan inni gasglu dros dair mil o bunnoedd, ac y mae'r rhoddion yn dal i ddod i mewn. Yr ydym yn diolch o galon i bawb a gyfrannodd tuag at yr achos, gan fod gwir angen gwneud y gwaith. Os oes rhywun fuasai yn lecio rhoi, yr ydym yn dal i dderbyn rhoddion. Diolch yn fawr.

CYNGERDD. Ar nos Iau, 26 Ebrill, fe fydd y Seindorf yn cynnal cyngerdd yn Festri Ebeneser gyda'r elw yn mynd i gyd tuag at y festri. Yr ydym fel swyddogion y capel yn ddiolchgar iawn iddynt. Cofiwch y dyddiad a'r lle.

Trwsio ac Adnewyddu Dodrefn
Wedi torri darn o ddodrefn?
Hoff gelfi wedi mynd i edrych yn drist?
Cysylltwch â ni i roi bywyd newydd i'ch trysor
Dennis & Julie Jones
01286 650255

PADARN LAKE
LLANBERIS (01286) 870260

PRYDAU DA AR GAEL POB DYDD
CANOL DYDD
A GYDA'R NOS
Cinio Dydd Sul (CARVERY) rhwng 12.30 a 3.00 o'r gloch
TE BACH POB DYDD RHWNG 2.30 a 5.00
Cyfleusterau- Bartion• Priodasau ac Achlysuron Arbennig

GWASANAETH GARDDIO
OWEN
GWAITH GARDDIO
TORRI GWAIR
TORRI CLODDIAU
TORRI A TRIN COED
GWAITH CLIRIO
PEINTIO
FFENSIO GERDDI A FFERMYDD
LLWYBRAU A PATIOS
Gwaith Gravel a Concretio
Ffacias UPVC a Landeri
BLOC PAFIO
07901648008

YSGOL DOLBADARN

Plant Meithrin/Derbyn Ysgol Dolbadarn yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi.

Gweithgareddau Clwb Mistar Urdd Bl 1 a 2. Yn ystod mis Ionawr cawsom ymweliad gan Alison ac Adam, Swyddogion Bioamrywiaeth Cyngor Gwynedd. Cawsom lawer o hwyl wrth ddysgu am gynefinoedd amrywiol.

Mae'r dosbarth yn llawn tylluanod ac adar bach lliwgar wedi i Mrs Heidi Petch, mam Jac, ddod i arwain sesiwn grefftau gyda ni.

Ymweliadau'r Cyfnod Sylfaen. Ar ddiwrnod Santes Dwynwen aeth dosbarthiadau'r Cyfnod Sylfaen am dro i'r eglwys. Roedd y Rheithor Carol Roberts yn ein disgwyl yno a chawsom ein harwain o amgylch yr eglwys.

Bu PC Neil Williams yn y dosbarthiadau hefyd. Cawsom sgwrs ganddo a Tarian y ddraig ynglŷn â chadw at y rheolau yn yr ysgol a hefyd yn ein bywyd o ddydd i ddydd.

Newyddion Chwaraeon. Chwefror y 6ed bu'r tîm pêl-rwyd yn cystadlu yng nghystadleuaeth pêl-rwyd yr Urdd yng Nghanolfan Hamdden Caernarfon

Chwefror y 10fed - bu'r tîm nofio yn cynrychioli'r ysgol yn y Gala Nofio ysgolion Arfon yng Nghaernarfon.

Eisteddfod yr Urdd. Llongyfarchiadau i'r plant ar eu llwyddiant yn yr Eisteddfod Cylch. Braf oedd gweld Tomos Mabon Pritchard a Deio Llwyd Roberts yn cystadlu ar yr unawdau. Pob lwc i'r Gân Actol, y Parti Llefaru a'r Côr yn yr Eisteddfod Sir.

Ymweliadau a Gweithgareddau'r Adran Iau. Daeth Claire Jones, Swyddog Addysg - Canolfan Addysg Amgylcheddol Alwen i'r ysgol i drafod ffurf o arbed dŵr gyda disgyblion yr Adran Iau. Llwyddodd y disgyblion i adnabod nifer o ffurfiau gwahanol i ddefnyddio dŵr yn effeithlon.

Daeth PC Neil Williams o Heddlu Gogledd Cymru i'r ysgol i drafod Diogelwch ar y We gyda disgyblion yr Adran Iau.

Bu nifer o'r plant yn mynychu sesiwn yn y llyfrgell yn deall sut i ddefnyddio llyfrau i chwilio am wybodaeth.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL. Cawsom noson ddiddorol ac addysgiadol iawn yn Fferm Fadarch Mr Cynan Jones, Nantmor, ar y 13ddeg o Fawrth, ac wedyn yng Ngwesty'r Goat ym Meddgelert, pryd y cawsom sgwrs am Fadarch Gwyllt. Diolch i Mr Jones a'r teulu am eu croeso, ac i Westy'r Goat am y baned a'r lluniaeth.

Yn y cyfarfod nesaf byddwn yn dathlu diwedd Tymor Y Gymdeithas gyda phryd o fwyd yng Ngwesty Dolbadarn ar nos Fawrth, yr 17eg o Ebrill, am 7yh (sylwch fod y cinio wythnos yn ddiweddarach na hysbysebwyd yn y rhaglen). Y gwestai gwadd fydd Y Parchedig a Mrs Harri Parri, Caernarfon. Enwau i Dilys Mai os gwelwch yn dda, diolch.

MARWOLAETHAU. Ar 30ain Ionawr bu farw Mrs Megan Dryhurst Evans, Gwynllys, Stryd Fawr gynt, yn 97 mlwydd oed. Ymfudodd i Scotter, Swydd Lincoln ychydig wedi marwolaeth ei gŵr, Robert Henry, yn 1980 er mwyn bod yn agos i'r mab David a'i briod Sheila. Bu'r angladd yn Amlosgfa Scunthorpe. O fewn tair wythnos daeth y newydd trist am farwolaeth ei mab David yn 70 oed a fu'n wael am flynyddoedd maith. Cydymdeimlwn yn fawr â Sheila, ei wraig, y ddwy ferch, Susan a Rhian a'u plant yn eu galar a'u hiraeth.

CAPEL COCH

Moli: Cynhelir oedfa 'Moli' yn Capel Coch am 5.00 o'r gloch nos Sul y Pasg, Ebrill 8, ac estynnwn wahoddiad i bawb ohonoch i ymuno â ni dan arweiniad aelodau iau'r eglwys. Yn yr oedfa 'Moli' ddiwethaf, nos Sul, Mawrth 11, roedd yn braf iawn cael croesawu John a Rachel Settatree, brawd a chwaer yng nghyfraith Andrew, gweithiwr ieuenctid Efe, atom. Maent yn byw yn Llithfaen. John sy'n arwain gwaith Undeb y Gair yng Nghymru ac mae Rachel yn gweithio i Trobwynt, sy'n helpu'r eglwysi yn LlYn ac Eifionydd yn eu cenhadaeth ymhlith pobl ifanc.

Oedfa Deulu: Cynhelir Oedfa Deulu yn Capel Coch am 10.30 o'r gloch ddydd Sul, Ebrill 22. Croeso cynnes i bawb.

YSGOL SUL CAPEL COCH.

Oedfa Eisteddfod yr Urdd, Parc Glynllifon.

Fore Sul, 3 Mehefin, yn hytrach na chynnal Cymanfa'r Dalgylch, bydd cyfle i holl blant yr Ysgol Sul ddod i'r Oedfa. Pwysleisir – Rhaid i aelodau'r Côr fod ym Mlwyddyn 3 i fyny oherwydd rheolau iechyd a diogelwch. Estynnir croeso mawr i blant o Flwyddyn 2 i lawr ddod i'r Oedfa a hynny yng ngofal oedolyn. Trefnir bws i gludo aelodau, rheini a ffrindiau Ysgolion Sul Capel Coch, Tabernacl, Ebeneser a Bosra. Dyma gyfle i'r plant gael profiad gwerthfawr o gael bod yn rhan o Oedfa a Chymanfa i'w chofio.

DATHLU'R DEUGAIN!

Ar Fai 25ain a 26ain 2012 bydd Amgueddfa Lechi Cymru Llanberis yn dathlu ei phenblwydd yn 40 oed! Dewch draw i ymuno yn y dathliadau!

Ydych chi'n cofio y diwrnod agoriadol neu'r dyddiau cynnar? Hoffwn glywed gennych!

Amgueddfa Lechi Cymru,
Gilfach Ddu, Llanberis.
01286 870630 / llechi@amgueddfacymru.ac.uk
www.amgueddfacymru.ac.uk

Tomi, Mickey a Mr Urdd.

Fy enw i ydi Tomi; rydw i'n 7 oed ac rydw i'n byw yn Llanrug. Flwyddyn dwytha mi nes i ddod yn gyntaf ar yr Unawd Blwyddyn 2 ac Iau yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Abertawe. Roedd y gystadleuaeth yna yn un o'r rhai sy'n cael eu noddi gan Disneyland, Paris, ac mi ges i a phedwar enillydd arall fynd allan i Disneyland eleni i ganu yn yr Wyl Gymreig sy'n digwydd yna bob mis Mawrth.

Rodd pedwar o'n teulu ni yn cael mynd: fi, Leisa fy chwaer, mam a nain. Mi nathon ni fynd i Faes Awyr Lerpwl efo Eric Tacsi, ac roedd yn rhaid disgwyl dwy awr am yr awyren. Roedd yr awyren yn hwyl dros ben, ac roedd yr olygfa yn anhygoel pan roedden ni'n hedfan uwchben y cymylau. Gyrhaeddom ni Disneyland yn y nos, a'r bore wedyn mi aethom ni i'r parc i fynd ar y reids. Y reid gynta i fi fynd arni oeddBig Thunder Mountain. Roedd mam a Leisa yn eistedd REIT YN Y FFFRYNT !!!!!! Roeddwn i a nain yn gallach ac mi naethon ni eistedd yn y canol. Fy hoff reid i oedd Buzz Lightyear oherwydd bod chi yn gorfod saethu cymeriadau Toy Story i gyd efo gynau smalio. Y reid mwya brawychus oedd y Tower of terror – doedd mam na nain isho mynd ar hwnna, ond ro'n i wedi gwneud ffrindia newydd; ac es i efo nhw – roedden nhw yn siarad Cymraeg wrth lwc! Ar ôl yr holl reids roeddwn i wedi blino'n lân, a cherddon ni nôl i'r gwesty a mynd i gysgu.

Y bore wedyn ro'n i'n barod i ganu yn yr Wyl Gymreig. Ro'n i'n canu am 12 o'r gloch, ac roedd Hanna medi Davies o Gaerfyrddin, nath ennill ar Unawd Blwyddyn 3-4 yn canu yn yr un cyngerdd, a hefyd Côr y Waun Ddyfal o Gaerdydd. Ges i ymarfer efo'r cyfeilydd a ges i ddraig wedi ei beintio ar fy moch. Roeddwn i'n nerfus iawn i ganu o flaen yr holl bobol. Y gân ro'n i'n ei chanu oedd Hufen Iâ, sef Unawd yr Urdd y flwyddyn yma. WAW, roedd y profiad yn anhygoel – mi nes i weld fy ffrind a fy chwaer yn y gynulleidfa yng nghanol yr holl bobol o Ffrainc.

Ar ôl i mi ganu Hufen Iâ, roeddwn i a'r pedwar plentyn arall yn cael mynd ar y Parêd. Roedden ni'n cael eistedd mewn car crand efo Cennin Pedr wedi eu peintio arno, ac ista efo Mickey a Minnie Mouse. Roedden nhw wedi gwisgo gwisg Gymreig yn sbeshal ar gyfer y diwrnod. Roedd prif stryd Disneyland wedi ei gau, ac oedd cannoedd o bobol yn gwylio. Roedden ni'n mynd drwy'r stryd yn ara deg, ac yn chwifio ar bawb. Roedd o'n deimlad mor ecseiting!

Ar ôl y Parêd roedden ni'n cael mynd am ddiod a bwyd i'r Disney Hotel – sef y gwesty mwyaf crand ar y parc. Roedd 'na win i'r mamau a pop i ni, a gafon ni stafell sbesial i wylio gêm Cymru. Y noson honno roedd na dân gwyllt am 10 o'r gloch y nos, ac mi aethon ni allan yn y tywyllwch i wylio. Dyna syrpreis arall – tân gwyllt coch, gwyn a gwyrdd oedd o, yn arbennig i'r Wyl Gymreig, ac i'r pump ohonom ni.

Wna'i byth anghofio'r penwythnos gwych yma – a diolch i Mr Urdd a Mickey am gael profiad mor fythgofiadwy!

PWYLLGOR APÊL LLANRUG A CHWM Y GLO (Eisteddfod Urdd Gobaith Cymru Eryri 2012). Mae'r pwyllgor am gynnal taith siopa i Gaer a/neu Lerpwl (cewch ddewis) ar ddydd Sadwrn, 21ain Ebrill. Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch â Eryl Roberts ar 675384. Cost y daith fydd £15 y pen.

RHEDEG NODDEDIG. Llongyfarchiadau mawr i Huw Owen, Gladwyn, Ffordd yr Orsaf, am redeg 20 milltir mewn ras Noddedig yn Rhayadr, ar ddydd Sadwrn, 16 Mawrth. Mae'r ras er budd Cŵn Tywys, er cof am ei daid, sef John Owen, Penrhyn bach gynt, oedd yn dioddef o Retinitis Pigmentosa, sydd yn gyflwr difrifol iawn. Roedd Mr Owen yn hollol ddibynnol ar ei gi tywys.

Os dymunir, gellwch noddi Huw drwy alw neu rhoi amlen drwy'r drws yn Gladwyn. Byddant yn ddiolchgar o unrhyw rodd.

PRIODAS AUR. Llongyfarchiadau mawr i Wavell ac Elizabeth Roberts, Snowdon View, Glan Beuno, Bontnewydd ar ddathlu eu Priodas Aur ar 24 Mawrth. Mwynhewch y dathlu.

PEN-BLWYDD 18. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Shane Broda, fydd yn 18 oed ar 17 Ebrill. Gyda chofion annwyl gan Taid a Nain (Anwen a Selwyn Morris), Dad, Mam a Kazia.

SEFYDLIAD COFFA. Clwb Cant. Enillwyr Chwefror oedd: 1. Mrs C. Griffiths, Tan y Fron; 2. M. Axon, 13 Hafan Elan; 3. G. Davies, Bod Awel.

MARWOLAETH. Ar ôl blynyddoedd o frwydro salwch a llu o brofedigaethau teulu bu farw Mrs Elizabeth Jones - Bet, Lyndale, yn 97 mlwydd oed. Cymeriad unigryw iawn oedd Mrs Jones a chanddi deulu caredig a ffrindiau triw. Bydd colled fawr ar ei hôl a chydymdeimlwn yn arw â Merfyn a'r teulu, ei merched yng nghyfraith a'i wyrion a wyresau a'i gor-wyrion a wyresau.

CERIS JONES
Teglan,
Stâd Talybont
LLANRUG
677362
neu symudol
07979620996
- Trwsio ceir a faniau
- Gwaith MOT
- Mecanic profiadol iawn
- Prisiau cystadleuol

WAVELL'S
Bryn ac Angela Williams
London House, LLANRUG
Ffôn:
(01286) 673574
PEN CIGYDDION Y FRO
Yr ŵyn lleol mwyaf blasus,
Selsig cartref
Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

MERCHED Y WAWR

Nos Fawrth,13 Mawrth, aeth nifer dda o aelodau'r gangen i ddathlu Gŵyl ein nawddsant yn Ffreutur, Hen Ysgol y Friars, Bangor am 6.30. Estynnwyd croeso mawr i bawb gan y Llywydd, Bethanne, a braf oedd gweld Margaret Parry wedi ymuno â ni wedi iddi ddechrau ei thriniaeth a dymunwyd yn dda iddi. Cydymdeimlwyd â Mair Huws wedi ei phrofedigaeth o golli ei brawd yng nghyfraith.

Llongyfarchwyd Carwyn, mab Meirwen Lloyd ar ei ddyweddiad â Siân Morgan. Deellir fod 5 lle ar ôl i ymweliad yr Urdd â Rwsia ym mis Medi – cysyllter â Gwasg Dwyfor. Ar 21 Ebrill trefnir trip i Lerpwl neu Gaer gan Bwyllgor Eisteddfod yr urdd Llanrug, pris £15.

Diolchwyd i bawb a gefnogodd y caffi yn yr Eisteddfod Cylch. Bu'n brysur tu hwnt eleni gan fod cymaint yn cystadlu am fod yr Eisteddfod Genedlaethol ar drothwy'r drws. Llongyferchir holl blant y Cylch a dymunir pob llwyddiant iddynt yn y Sir a'r Genedlaethol.

Gan fod diddordeb gan rai aelodau i ymweld â Sempringham i weld cofeb y Dywysoges Gwenllian, croesewir aelodau o ganghennau Merched y Wawr ac os bydd lle bydd croeso i ffrindiau ymuno, a hynny ar Sadwrn, 30 Mehefin. Byddwn yn aros noson mewn gwesty ac ymweld â'r Gofeb ar y Sul – enwau i Gwenda Roberts cyn diwedd Mawrth (Ffôn 675649).

Diolchodd y Llywydd i Fyfyrwyr Arlwyo Coleg Menai am y pryd pedwar cwrs amheuthun. Diolch iddynt hefyd am eu gweinyddu cyfeillgar a dymunwyd yn dda iddynt yn eu gyrfa i'r dyfodol.

Enillwyd y raffl gan Bethanne. Ar Ebrill 10 cawn hanes sefydlu cwmni Hufen Iâ 'Môn ar Lwy' gyda Helen Holland.

Pasg Hapus i bawb.

CAPEL Y RHOS. Yn ystod gwasanaeth bore Sul y Mamau, Mawrth 18fed, bedyddiwyd Maya Katie, merch fach Sarah ac Andy Hughes, 2 Rhes Arfon, Llanrug. Croesawyd nifer fawr o berthnasau a ffrindiau gan y gweinidog, y Parch. Marcus Wyn Robinson a dymunwn bob bendith i'r teulu bach.

CRONFA BLODAU. Diolch yn fawr iawn i'r rhai sydd wedi cyfrannu i'r gronfa hon ar gyfer prynu blodau i wasanaethau'r capel. Os oes rhywun yn dymuno cyfrannu eto, mae Mair Hughes yn derbyn y rhoddion yn ddiolchgar iawn.

GWASANAETHAU MIS EBRILL.

Ebrill 1 – Parch. Marcus Wyn Robinson – y Gweinidog

Ebrill 8 - Parch Harri Parri

Ebrill 15 – Y gweinidog

Ebrill 22 – Parch Ieuan Lloyd

Ebrill 29 – Parch Reuben Roberts

PÊL BONWS YR URDD. Ar ôl blwyddyn o gasglu arian daeth yr ymgyrch hon i ben ar Chwefror 25ain a'r un olaf i ennill oedd Macsen Llwyd, Y Goedlan, gyda rhif 33. Hoffwn ddiolch i bawb gefnogodd y fenter a braf cael dweud fod £1,370 wedi ei gasglu tuag at darged Llanrug a Chwm y Glo.

DIOLCHIADAU. Hoffai Ann Thompson a'r Teulu, Awel y Foel, Rhosgadfan, ddiolch o galon i bawb yn ardal Eco'r Wyddfa am bob arwydd o gydymdeimlad maent wedi'i dderbyn ar farwolaeth gŵr a thad perffaith, sef Mr Derek Thompson. Rydym yn ddiolchgar i chwi oll.

PLAID CYMRU. Clwb Cant. Enillwyr Mawrth yw: 1. Arwel Jones, Penisarwaun; 2. Sion Humpreys, Tanycoed.

Cefnogwch ein hysbysebwyr

YSGOL GYNRADD LLANRUG

1. Bu Blwyddyn 1 a 2 yn ymweld â Chastell Caernarfon fel rhan o'u thema.
2. Cafodd Blwyddyn 3, 4, 5,a 6 sioe fywiog iawn yn rhybuddio plant am beryglon cyffuriau ac alcohol.
3. Bu cwmni drama Menter Môn yn cyflwyno eu drama 'Dim Ond Eiliad' i Flwyddyn 5 a 6. Roedd pawb wedi mwynhau'r perfformiad.
4. Daeth cwmni Techniquest gyda'u hoffer ymarferol ar y thema 'Grymoedd' a chafodd y plant ddiwrnod o hwyl yn arbrofi.
5. Bu Blwyddyn 6 yn ymweld ag Amgueddfa Lechi Llanberis fel rhan o brosiect i ddathlu deugain mlynedd ers agor yr Amgueddfa.
6. Bu Eisteddfod Cylch yr Urdd yn Ysgol Uwchradd Brynrefail a chafodd yr ysgol gryn lwyddiant eleni. Llongyfarchiadau i bawb a fu'n cystadlu. Dwi'n siŵr yr hoffai'r plant ddiolch yn fawr iawn i'r holl athrawon fu'n eu hyfforddi. Dyma'r cystadleuwyr fydd y mynd ymlaen i'r Eisteddfod Sir. Pob lwc iddyn nhw i gyd.

Llefaru dan 8: Erin Gibbard; Unawd Bl 3 a 4: Tomi Llewelyn; Llefaru Bl 3 a 4: Tomi Llewelyn; Unawd Alaw Werin: Leisa Gwenllian; Llefaru Bl 5 a 6: Leisa Gwenllian; Deuawd Bl 6 ac Iau: Leisa a Tomi; Parti Dawnsio Gwerin dan 10 oed; Parti Dawnsio Gwerin dan 12 oed; Parti Unsain Bl 6 ac Iau; Parti Deulais Bl 6 ac Iau; Cân Actol.

Bu llawer o'r plant hefyd yn fuddugol ar gystadlaethau Celf a Chrefft.

Bydd gwaith y rhain yn cael eu harddangos yn y Babell Gelf yn Eisteddfod yr Urdd. Da iawn chi!

Graffeg Cyfrifiadurol: Osian Eifion Land; Lluniadu 2D: Rhydian Williams; Gwaith 3D: Mali Brookes a Mared Roberts.

7. Bu criw yn cynrychioli'r ysgol mewn sesiwn Athletau dan do dan ofal Miss Catrin Jones.
8. Carai Staff Ysgol Gynradd Llanrug ynghyd ag Elena Williams a chriw Clwb y Grug, ddiolch o galon i deulu Sasha Jarvis am eu rhodd hael i gofio amdani.



PRIODAS DDIAMWNT. Bydd Neville ac Elizabeth Vaughan Roberts yn dathlu 60 blwyddyn o briodas ar Fawrth 29ain. Brodor o Lanrug yw Neville a chafodd ei fagu yn Eryri, Ffordd yr Orsaf. Gwraig o Glwt y Bont, Deiniolen, yw Elizabeth. Bu Neville yn Reolwr Banc y Midland yn y Bala, Prestatyn ac Abergele. Maent bellach yn byw ym Mhrestatyn ers deugain mlynedd ac mae ganddynt ddau o blant Gareth a Gwenda.

Dymuniadau gorau iddynt ar eu Priodas Ddiamwnt.

E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE, Llanberis
Ffôn: (01286) 870202
TREFNWYR ANGLADDAU

Bws Mini Brynrefs a Marathon Llundain!

Pan glywyd y newyddion am Farathon Llundain a Bws Mini, rhaid cyfaddef, yr oedd peth dryswch. Arwyn Williams, Dirprwy Bennaeth yn gyrru bws mini Brynrefs o gwmpas Llundain yn y ras Marathon?
Ond o'r dryswch fe ddaeth dealltwriaeth.
Rhedeg yn y Marathon mae Arwyn Williams i godi pres tuag at gostau bws mini newydd. Tra bydd ei goesau bach yn rhedeg 42.195 cilometr, neu 26milltir 385 llathen mewn hen arian, y lleiaf allwch wneud ydi codi ar y bore Sul, gwneud panad, troi'r teledu ymlaen a'i gefnogi.

OND FE ALLWCH WNEUD LLAWER MWY!
Yn unigolion, yn deuluoedd, yn gwmnïau, yn gymdeithasau fe allwch ei noddi. Bydd pob dimau, ceiniog, chwigian, pumpunt a dec punt yn mynd tua'r gronfa i brynu bws mini newydd i Ysgol Brynrefs.
Llwybreiddiodd ei ryfeddod prin o'm blaen
Digwyddodd, darfu megis seren wib!

Defnyddwyr ifanc

Ffion Erin, Ffion Wyn, Lloyd a Tudur yn derbyn eu tlws gan John Eden Jones, Swyddog Safonau Marchnata Gwynedd, am iddynt ennill 'Tlws Defnyddwyr y Flwyddyn' yn yr ornest rhwng holl ysgolion uwchradd yng Ngwynedd eleni.
Fe fydd y tîm yn cynrychioli Gwynedd yn yr ornest genedlaethol a gynhelir yng ngwesty'r Metropole, Llandrindod yn ddiweddarach ym mis Mawrth.



Paratoadau'r Cam Nesaf

Ym mis Chwefror cafwyd cyfres o ddarlithiau yn Ysgol Brynrefail ar agweddau o fod yn fyfyriwr coleg neu brifysgol.
Yn y darlun gwelwn Hawys Roberts o Brifysgol Aberystwyth yn annerch myfyrwyr blwyddyn 13 ar pa bethau i'w ddisgwyl o fyw mewn hostel neu mewn rhandy a blasu, am y tro cyntaf, fyw heb gynhaliaeth teulu.
Cafwyd anerchiadau hefyd gan Sioned Jones o Brifysgol Bangor a Graham Kelly o Brifysgol Glyndwr ar agweddau fel sut i baratoi am gyfweliad, beth i'w wisgo, iaith gorfforol, hunan hyder ac yn y blaen.
Yr oedd y cyfnodau hyn yn rhan o baratoadau Ysgol Brynrefail ar gyfer ei myfyrwyr a'u cam nesaf.

Byd Natur oddeutu'r Ŵyl

Pasg

Ei alw i'w Groeshoeliad, a'i hongian
hyd angau dros gariad,
yna 'i roi mewn beddrod rhad
i'w fedi'n Atgyfodiad.

Y Wyrth

Gwelaf nerth o fôn y perthi, hen rym
o wraidd yr holl lwyni
yn llyfn esgyn y mae'r lli
o wynnin eto 'lenni.

Enfys

Rhyfeddod blaen cawodydd, a'i bwa
o bŵer y tywydd
golau saith o liwiau sydd
arlunwaith Pen Arlunydd.

Daffodiliau

Testament drwy'r mynwentydd, a hi'n Basg
am ddwfn barch y broydd
i linach, i ragflaenydd,
aur yw ffordd hen deulu'r ffydd.

Dychwelyd

O deled hin i delor yr helyg
rilio'r gân bencantor;
o herio'r aig dros oror
deled 'nôl gwennol i gôr.

Brain

O'r llofftydd- siamberydd daw sŵn, hen dre'n
llawn o drwst a thensiwn,
acw fry, cecru fel cŵn
ias o'i blynyddol Sasiwn.

Norman Closs



PASG EFE

Bydd gan Efe ddiwrnod i blant Blwyddyn 3-6 yn Ysgol Gynradd Llanrug ddydd Llun, Ebrill 2.

Bydd 'Pasg Efe' yn dilyn diwrnod tebyg a gynhaliwyd yn ystod gwyliau'r Nadolig y llynedd, ac estynnir gwahoddiad i blant y fro i ddod atom i ddathlu'r Pasg mewn diwrnod o weithgareddau hwyliog.

Ceir manylion llawn am y diwrnod gan Andrew Settatree, 15 Heol Edward, Twthill, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1PH (Ffôn: 07929916181; e-bost: gosodcoeden@hotmail.com).

Dechreuir am 10.00 o'r gloch y bore a daw'r gweithgarwch i ben am 2.00 o'r gloch y prynhawn. Bydd angen i'r plant ddod â phecyn bwyd gyda hwy i ginio.

Ceir rhagor o fanylion am weithgareddau Efe ym mhentrefi bro Eco'r Wyddfa ar wefan Efe: www.cynllunefe.org

Diolchwn ymlaen llaw i Mr Robin Williams, Pennaeth yr Ysgol, am ei gydweithrediad a'i gefnogaeth wrth ganiatáu i ni gynnal y diwrnod yn yr Ysgol.

Digwyddiadau Ebrill.

Yn 1973 cyhoeddwyd rhifyn cyntaf 'Y Dinesydd', papur bro cyntaf Cymru, a hynny yn y brifddinas, Caerdydd.

Roedd y 6ed o Ebrill 1896 yn ddiwrnod pwysig yn hanes Llanberis. Dyma pryd yr agorwyd Rheilffordd yr Wyddfa. Ond yn anffodus, bu damwain, a lladdwyd un person o ganlyniad.

Ar Ebrill 11eg, 1240 bu farw Llywelyn Fawr yn Abaty Aberconwy.

Yn 1968 ar Ebrill 29ain y cyhoeddwyd y stamp swyddogol cyntaf gyda geiriau Cymraeg arno sef 'Pont Menai'.

CYNGERDD Y PLANT

Eglwys Sant Padarn

Nos Wener 27 Ebrill 2012
am 7 y.h.

Ysgol Cwm y Glo
Ysgol Dolbadarn
Lleisiau Llanbabs
Ysgol Gynradd Llanrug

Arweiniydd y noson: Ivan Wyn Williams

Mynediad : Oedolion £3 Pensiynwyr £2

Elw at Eglwys Sant Padarn

LLYTHYRAU

Glyder
8 Ffordd Capel Coch
Llanberis

Penderfyniad Difrifol ac Anghyfrifol Sianel S4C

Gyda syndod y deallais drwy gyfrwng yr Eco fod Sianel S4C wedi gwrthod ffilmio Ras yr Wyddfa eleni. Y rheswm tros y penderfyniad hwn yw fod y Gemau Olympaidd yn cael eu cynnal yn Llundain yn ystod yr un cyfnod.

Er fod pwyllgor y Ras wedi newid y dyddiad o leiaf ddwy waith, gan ymbil ar i weithredwyr y Sianel gydymffurfio â'u dymuniadau, dal i wrthod a wnaeth yr Awdurdod Darlledu Cymraeg o'n heiddo.

Nid wyf yn erbyn y gemau rhyngwladol hyn, ond mae'n syndod i mi fel y bu i Lundain estyn gwahoddiad i'r Gemau Olympaidd ddod i Brydain o gwbl, a thymheredd dirwasgiad yn llethu bywyd cymdeithasol deiliaid yn Ynys.

Fel y gwyddom, y mae'r gost o gynnal y gemau hyn yn aruthrol o fawr ac nis gwn o lle y daw y cyfalaf angenrheidiol. Bob dydd yr ydym yn clywed am doriadau mewn gwasanaethau, am fethiant busnesau, am broblemau dyrys llywodraethau lleol megis Cyngor Gwynedd, am riddfannau awdurdodau iechyd, am lesgedd yr henoed, am ddiweithdra ymysg pobl ifanc, ac am y loes o orfod cau ysgolion.

Y neges o San Steffan ac o Gaerdydd yw ei bod yn rhaid cynilo a chwtogi er lles yr economi ac, hwyrach, er lles y dyfodol. Y mae'n rhaid i ni ddioddef yn ddistaw a bod yn amyneddgar.

Ond, ar yr un pryd, gwelwn rai mewn swyddi uchel yn cael hufen pur fras, gan fwynhau rhoddion a chyflogau enfawr. Y mae San Steffan am roi croeso o'r naws gorau i'r Gemau Olympaidd gan ryw feddwl y ceir llwyddiant a budd ariannol yn eu sgil. Hwyrach mai gwir yw hyn am ddinas Llundain, ond ni chredaf y bydd Llanberis nac unrhyw Lan arall yng Nghymru yn elwa o gwbl.

Nid achlysur plwyfol yw Ras yr Wyddfa. Y mae'n ddigwyddiad rhyngwladol erbyn hyn ac, i ni y Cymry, yn bwysicach o lawer na'r gemau a gynhelir yng Llundain. Os yw Sianel S4C yn cadw'r egwyddor mai sianel i wasanaethu Cymru yw, yna dylai gael ei blaenoriaethau yn gywir, nid cefnogi unrhyw sefydliad a fedda ar wreiddiau estronol ar gost digwyddiadau a berthyn i'r Genedl Gymreig.

Mawr hyderaf y bydd Ras yr Wyddfa eleni yn cael ei darlledu gan S4C gan brofi fod gennym ni, y Cymry, ein sianel ein hunain.

J.H. Hughes

ECO'r Wyddfa

Cefnogwch ein hysbysebwyr

Pryd i Bawb

Arlwyo at bob achlysur yn unrhyw leoliad
Bwffe blasus o safon

- Priodas
- Cyfarfodydd busnes
- Bedydd/Parti/Te angladd
- Basged Picnic
- Bwyd yn unig neu gwasanaeth llawn

Cerid Mackinnon
Ffôn: 01286 673190
Symudol: 07774 925502

Mihangel Morgan: Dewin y Straeon Dyfeisgar

Sut y byddai Caradog Prichard yn ymdopi gyda cholli ei gof ar ôl ymddeol? Beth ddigwyddodd i Evan Roberts ar ôl i fwrlwm y Diwygiad ddod i ben? Beth oedd y foment allai fod wedi ysbrydoli Kate Roberts i feddwl am yr iaith Gymraeg fel ystlum mewn cerdd i'r Faner? A sut un oedd 'hardd wreangyn' Dafydd ap Gwilym, a beth oedd ei wir farn am ei feistr?



Dyma rai o'r cwestiynau y mae dychymyg unigryw Mihangel Morgan yn ceisio eu hateb yn ei gasgliad o straeon newydd. Yn Kate Roberts a'r Ystlum mae'n bachu rhai o brif ffigyrau llên a hanes Cymru – ac ambell gymeriad arall – a'u gosod mewn sefyllfaoedd annisgwyl, lle cawn eu gweld fel bodau meidrol yn eu holl gryfder neu wendid. Fe fydd y straeon yn eich goglais, eich synnu, eich anesmwytho ac yn cyffwrdd â'ch calon.

'Mae Mihangel Morgan yn ymateb yn greadigol i gynnyrch celfyddydol y gorffennol,' meddai Dr Jerry Hunter am Kate Roberts a'r Ystlum. 'Mae yma ddwyster a digrifwch, tynerwch a thristwch, myfyrdod a menter – a phob stori unigol yn gorfodi'r darllenydd i weld y cyfarwydd mewn ffordd gwbl wahanol. Ni allaf ddisgrifio'r gyfrol gyfoethog hon ond fel cydymaith ffuglennol i lenyddiaeth Cymru.'

Cydnabyddir Mihangel Morgan fel un o awduron gorau a mwyaf cynhyrchiol y Gymru gyfoes, ac mae disgwyl mawr bob amser am waith newydd ganddo. Dyma ei seithfed cyfrol o straeon. Cyhoeddwyd ei nofel ddiweddaraf, Pantglas, gan y Lolfa y llynedd.

CYFARFOD BLYNYDDOL YR 'ECO'

Y SEFYDLIAD COFFA, LLANRUG,
Nos Fercher, Ebrill 25ain am 7.30
Dyma'r cyfarfod cyntaf ers i'r 'Eco' gael tudalennau lliw.
Dewch draw i fynegi eich barn.
Oes gennych syniadau newydd am ddyfodol y papur?
Dyma gyfle i ddweud eich dweud.

O fewn y mis bydd yr 'Eco' yn dathlu cyhoeddi ei 400 fed rhifyn.
Fydd y papur yn dal yma ymhen 400 arall?
Eich papur CHI ydi o. Mae eich barn a'ch sylwadau yn cyfrif.
Nodwch y dyddiad yn eich dyddiadur a dewch i gefnogi.

"Y byd i'n disgyblion a disgyblion i'n byd"



LLWYDDIANT GYMNASTEG

Llongyfarchiadau calonnog i Leanne Williams, sydd yn hanu o bentref Deiniolen, ar ei llwyddiant mewn gornest gymnasteg yn ddiweddar. Bu Leanne, sydd yn perthyn i dîm gymnasteg Eryri, yn cystadlu mewn cystadleuaeth yng Nghanolfan Glannau Dyfrdwy. Yn y gystadleuaeth Twmblo llwyddodd Leanne i gyrraedd yr 2ail safle ac enillodd fedal hardd i ddathlu ei llwyddiant.
Geneth Bryrefs – da 'de

LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau calonnog i aelodau'r Clwb Darllen. Cawsom gyfle i'w llongyfarch ar fore Mawrth, 13eg o Fawrth, am fynychu'r clwb yn ffyddlon pob wythnos ers diwedd Medi. Hefyd am y cynnydd sylweddol maent wedi ei wneud gyda'u darllen. A ninnau hanner ffordd drwy'r flwyddyn Ysgol cafwyd seremoni wobrwyo yn y Llyfrgell. Daeth Mrs Elen Williams, y Dirprwy Bennaeth atom i gyflwyno tystysgrifau i'r disgyblion.
Mae'n rhaid diolch hefyd i aelodau'r chweched dosbarth sy'n gwrando'n astud bob wythnos ar y disgyblion yn darllen ac yn eu helpu i ddeall unrhyw eiriau dieithr Ond da chi cadwch hyn yn ddistaw. Oherwydd y mae pentwr o flwyddyn 7 yn ysu i ymuno a dim digon o le yn y Llyfrgell!

GWEITHDY EURIG

I Gyfarch Tîm Rygbi Cymru
Heia Scott, iawn boi? Gwych o gais!
Roedd un yn ddigon i orchfygu'r Sais,
A Leigh, George a Jonathan, diolch i'r tri
Am rwystro'r hen elyn, â thacl o fri,
Nawr rhaid croesawu'r Rhufeiniaid i'n ffau,
A bydded i'r holl waith barhau!
Pluwn y ceiliogod yn eu holl falchder
A'u rhostio â thân y ddraig a'i phwer,
Enillwch pob tacl, amddiffynnwch ein pyst,
Bydd Warren yn gwenu o glust i glust!
Disgyblion Bl 9 ac Eurig Salisbury

Ar Fawrth 6ed daeth Bardd Plant Cymru - Eurig Salisbury - i'r Adran Gymraeg i gynnal gweithdy barddoniaeth. Doedd neb yn siwr iawn beth oedd hyn yn ei olygu cyn yr ymweliad, ond yn y rhan gyntaf fe gawsom gyflwyniad ganddo ar beth yn union oedd gwaith bardd. Soniodd am y talwrn, yr ymryson a'r stomp. Wedyn dywedodd ein bod fel dosbarth am ysgrifennu cerdd ar bwnc pwysig - a beth well na llwyddiant diweddar Tîm Rygbi Cymru? Yn rhyfeddol o sydyn, daeth y syniad yn fyw, a chyn pen dim roedd gennym gerdd orffenedig gwerth ei halen. Dywedodd Eurig ei hun fod y darn yn un o'r pethau gorau y bu iddo lunio ar y cyd gyda disgyblion, ac y byddai'n hoffi ei chyhoeddi!! Yn rhy sydyn o lawer daeth y sesiwn i ben. Gobeithio'n arw y caiff gyfle i ddychwelyd i Frynrefail - i ysgrifennu cerdd am y Gamp Lawn efallai?!
Blwyddyn 9

CHWILOTA

Hanes hen gipar.

Tra'n chwilio trwy gofrestrau plwyf Llanbeblig yn ddiweddar, deuthum ar draws cofnod bedydd merch o'r enw Isabel Salvage a fedyddiwyd ar y trydydd o Fawrth 1886. Merch ydoedd i John a Sarah Ann Salvage. Roedd yr enw yn un anghyffredin, ond yr hyn a ddaliodd fy sylw yn hytrach na'r enw oedd cyfeiriad y teulu, sef Pontrhythhallt, Llanrug. Pam tybed roedd teulu o Lanrug am fedyddio eu merch fach yn Llanbeblig? Tybed ai oherwydd mai Saeson oeddent, ac mai yng Nghaernarfon yn unig yr oedd gwasanaethau Saesneg yn cael eu cynnal bryd hynny? Roedd y tad yn cael ei ddisgrifio fel "gamekeeper", ond sut fath o gipar fyddai'n debygol o fyw ym Mhontrhythallt yn y cyfnod hwn?

Bu'n rhaid chwilio'r gwahanol gyfrifiadau i wybod mwy am y teulu, ond doedd dim son amdanynt ym mhlwyf Llanrug. Dyna roi cynnig ar blwyf Llanddeiniolen, gan fod Pontrhythallt yn rhannol yn y plwyf hwnnw hefyd, a'u cael yn byw yn y Ship, ar gongl y lôn fach sy'n arwain am Graig y Dinas. Yn 1891 roedd gan John Salvage bedwar o blant, ac yr oedd plwyfi genedigol y teulu yn dangos fel roedd y tad wedi symud gryn dipyn gyda'i waith fel cipar. Wrth gwrs, roedd yn draddodiad, ac yn beth eithaf call bryd hynny i gyflogi ciperiaid nad oedd ganddynt unrhyw gysylltiad â'r fro y byddent yn gweithio ynddi. Doedd y cipar ddim yn debygol o adnabod neb yn y fro, ac felly, gallai fod yn hollol ddi-duedd yn ei ymdriniaeth â'r gwahanol bobl a fyddai'n debygol o botsio! Mae disgrifiad byr o'r cipar i'w gael yn llyfr Thomas Phillips ar ardal ei febyd, sef "Bro Deiniol". "Brodor a osodai fraw ar fechgyn y fro. Gwelaf ef o flaen fy llygad yn cerdded yr heolydd ac ar draws y caeau. Dyn corffol o daldra canolig; a gerwinder yn argraffedig ar ei wedd; côt ddu, trowsus ffustion, a chap ar ei ben; bwtsias am ei goesau, gwn dau faril ar ei fraich, a chi graenus wrth ei sodlau. Llawer tro y rhybuddiwyd ni ganddo i beidio ymyrryd â'r 'game'."

Ceir hefyd ddisgrifiad ganddo o ymweliad y cwn hela â'r gymdogaeth. "Ymwelai mintai cwn hela y Faenol a Choed Alun ; arferiad poblogaidd y dyddiau hynny. Cyfarfyddent mewn lle canolog, a mawr y miri a'r brwdfrydedd ym mysg y plant. Gwelid y cwn hela yn cyiweirio o amgylch yr helwyr, a'r meirch trwsiadus yn ysgwyd eu pennau, fel pe yn sylweddoli eu tras uchelryw, ac fel pe yn ymhyfrydu yn y dydd a'i ddigwyddiadau. Nid llai y plant; dilynent y fintai dros y cloddiau, ar draws y meysydd, rhwng y twmpathau eithin, er cael golwg ar y pry yn codi, a chystadleuaeth y cwn yn hela'r ysgyfarnog a'r cadno i'r ddalfa."

Brodor o Thetford yn Norfolk oedd John Salvage, ond does dim sicrwydd o ble deuai Sarah Ann ei wraig. Yn 1891 honnai iddi gael ei geni yn Barnet, ger Llundain. Yn 1901, ei phlwyf genedigol oedd Grantham, Swydd Lincoln! Ond mae'n amlwg i'r pâr priod gael gwaith ym Môn, oherwydd yno, ym mhlwyf Llanddyfnan y ganwyd Frances (tua 1881) a Henry (tua 1885). Yn fuan wedi geni Henry symudodd y teulu i Bontrhythallt, oherwydd ganwyd Isabel yn Llanddeiniolen ac yna Lizzie, y ferch ieuengaf tua 1890. Yn ddiweddarach, ganwyd Edith tua 1893.

Mae'n fwy na thebyg mai i Ysgol Tan y Coed ym Mhenisa'rwaun y byddai'r plant wedi cael eu haddysg. Mae'n ddiddorol meddwl y gallai fy nain fod wedi bod yn athrawes arnynt.

Erbyn 1911 dim ond Edith o'r plant oedd yn parhau gartref yn Ship gyda'i rhieni, ac erbyn hyn, mae'r tad yn honni y gallai siarad Cymraeg yn ogystal a Saesneg, ond nid felly y fam. Roedd hi'n parhau'n uniaith Saesneg. Roedd y plant erbyn hyn, wrth gwrs, yn gwbl ddwyieithog. Does dim hanes o unrhyw un o'r plant yn yr ardal wedyn, hyd y gwn i, ar wahan i Edith, a briododd ar ddiwedd 1920 gyda Robert G. Roberts. Mae posibilrwydd iddi hi fod wedi aros yn yr ardal, a bod rhai o'i phlant a'i disgynyddion yn dal i fyw yn y fro. Oedd Edith Roberts yn nain neu'n hen nain i rai ohonoch?

Mwy am Mr Tomavoah.

Fel roedd yr "Eco" diwethaf yn mynd i'w wely daeth llythyr gan Mrs Sarah Kelly, Bangor (Llandddeiniolen gynt) yn adrodd ei hatgofion am y gwr a oedd yn cadw rhyw fath o sinema yng Nghlwt y bont. "Wnes i erioed feddwl," meddai, "y buaswn yn clywed yr un gair amdano gan neb ar ôl yr holl flynyddoedd."

Er mai yn 1922 y deuthum ar draws cofnod ohono yn cadw sinema yn y Ty Clwb yng Nghlwt y Bont, mae Sarah Kelly yn ei gofio yn crwydro o fferm i fferm yn yr ardal hyd ddechrau'r Ail Ryfel Byd. Roedd tua pedair oed pan welodd ef gyntaf – a dychryn, gan nad oedd erioed o'r blaen wedi gweld dyn tywyll ei groen.

Arferai ei mam brynu nwyddau ganddo yn eithaf rheolaidd. Byddai'n cael gwahoddiad i'r ty, ac yntau'n tynnu ei nwyddau allan o bortmanteau mawr a'u taenu hyd fwrdd y gegin. Erbyn diwedd y tridegau roedd ei mam yn gallu fforddio gwario rhywfaint mwy o arian, a phrynodd gwrlid sidan hardd o liwiau'r India. Bu'r cwrlid gan y teulu am flynyddoedd lawer. Ac yn parhau ym meddiant Sarah Kelly mae basged wellt a ddaeth hefyd o bortmanteau Mr Tomavoah. Mae'n amlwg felly nad oedd yn gwerthu nwyddau sâl! Tybed beth ddigwyddodd iddo pan ddaeth y Rhyfel?

Becws yn Ebenezer.

Daeth cais i law ynglyn â ble'n union roedd y Vaynol Bakery, a oedd mewn bodolaeth hyd 1915 os nad yn hwyrach. Pwy hefyd oedd y perchnogion, a beth oedd eu cysylltiadau â dyfffryn Ogwen?

Priffordd ar draws Llanddeiniolen.

Ar y 7fed o Ebrill 1914 roedd y Cynghorwyr O Lloyd Evans, J.T.Jones ac E. Hugheston Roberts o Gyngor Sir Gaernarfon a'r Meistri T.D.Williams, William Roberts, O.T.Hughes a Robert E. Roberts o Gyngor Plwyf Llanddeiniolen yn cyfarfod i drafod dyfodol ffordd o tua chwe milltir a hanner o Benllyn ar draws y plwyf i waelod Nant y Garth a ffordd bost Caernarfon-Bangor. Ar wahan i hanner milltir yng ngwaelod Nant y Garth, roedd y cyfan o'r ffordd ym mhlwyf Llanddeiniolen, a'r plwyf hwnnw oedd wedi gwneud cais am ei dynodi yn briffordd. Archwiliodd y pwyllgor y cyfan o'r ffordd, a chafwyd yr adroddiad canlynol (yn Saesneg):

Mae'r ffordd yn gul; mor gul mewn mannau fel na all car modur a cherbyd yn cael ei dynnu gan geffyl basio ei gilydd. Mae mewn cyflwr drwg iawn, gyda rhai gelltydd serth iawn a ffosydd peryglus wrth ei hochr a throadau drwg.

Mae'r pwyllgor yn cytuno'n unfrydol na all y Cyngor Sir gysidro ei dynodi yn briffordd heb yn gyntaf ledu'r ffordd yn sylweddol; agor ffosydd mwy diogel, gwneud i ffwrdd a rhai o'r gelltydd, a thrwsio'r holl ffordd.

I gael ei chydnabod yn briffordd, dylai fod yn fwy na chyflawni gwasanaeth lleol. Nid oedd y drafnidiaeth a ddefnyddiai'r ffordd y diwrnod hwnnw wedi creu argraff dda ar y pwyllgor, ond mynnai cynrychiolwyr y Cyngor Plwyf fod y ffordd yn brysur ryfeddol yn ystod misoedd yr haf yn cario cerbydau a charabancs o Landudno i Lanberis.

Penderfynwyd cyfarfod eto yn ystod misoedd yr haf i gael golwg ar y drafnidiaeth drom honedig. Argymhelliad y pwyllgor oedd peidio a dynodi'r ffordd yn briffordd.

Yna, wrth gwrs, daeth y Rhyfel Byd Cyntaf, a phrin oedd unrhyw waith ar wella ffyrdd gwledig am y blynyddoedd nesaf. Tybed pryd y cafodd y ffordd ei gwella, a pha bryd y cafodd ei dynodi yn briffordd?

A phe bai gwelliannau wedi eu gwneud, a wyneb gwell wedi ei osod ar y ffordd, mae'n debyg mai peiriant tebyg i hwn a fyddai'r Cyngor Sir wedi ei ddefnyddio i chwistrellu tar drosti. Honnid fod Coleman's Patent Horse-drawn Tar-spraying Machine yn cario 150 o alwyni ac yn chwistrellu lled o bum troedfedd a hanner. Sgwn i fu un o'r rhain yn cael ei dynnu o Benllyn i Nant y Garth yn fuan wedi'r Rhyfel Byd Cyntaf?

Y mis nesaf, trydan yn Nhan y Coed a busnes trwsio beics y chwarelwyr. Anfonwch unrhyw ymholiad neu wybodaeth am hanes y fro i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y nant, Llanrug, Caernarfon. Ffôn: 01286 673515.



YSGOL GYMUNED

Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod y Llyfr. Daeth y plant i'r ysgol mewn gwisg Gymreig, a dod â'u hoff lyfr. Yn ogystal mwynhawyd cinio blasus wedi ei baratoi gan Anti Mandy.

Ymweliadau. Bore dydd Mawrth, 13 Mawrth, aeth Bl 3 i 6 i gymryd rhan mewn gweithdy 'Grymoedd' yn y Mynydd Gwefru, Llanberis. Roedd yr ymweliad wedi ei drefnu gan gwmni Techniquest ac roedd pawb wedi mwynhau'r profiad o gymryd rhan.

Derbyniodd Bl 5 a 6 wahoddiad i ymuno â phlant o ysgolion eraill y dalgylch yn Ysgol Gynradd Llanrug fore dydd Mercher, 14 Mawrth. Cawsant gyfle i wylio Sioe Diogelwch wedi ei threfnu gan Menter Môn. Diolch am y croeso a dderbyniwyd yno.

Bu rhai o ddisgyblion Bl 3 i 6 yn cymryd rhan mewn cystadleuaeth Athletau yng Nghanolfan Hamdden Arfon fore dydd Gwener, 16 Mawrth. Diolch i bawb am wneud eu gorau glas yn y gystadleuaeth, roeddent i gyd wedi mwynhau cymryd rhan.

Noson Cwis a Chacen. Trefnwyd y noson yma gan y Cyfeillion nos Fercher, 14 Mawrth. Cafwyd noson hwyliog iawn gydag amryw o dimau yn cystadlu yn erbyn ei gilydd. Daeth dau dîm yn gyfartal ar y diwedd, sef Tîm Amie a Thîm Christian, bu'r rhaid gofyn un cwestiwn ychwanegol i'r ddau dîm a'r enillwyr ar y diwedd oedd tîm Christian. Llongyfarchiadau! Yn ystod yr egwyl bu'r timau i gyd yn brysur iawn yn blasu darn o bob un o'r 17 cacen! oedd wedi cystadlu, ac ar y diwedd dyfarnwyd mai Gareth Fôn Griffiths oedd yn deilwng o'r teitl 'Cogydd gorau Penisarwaun'. Llongyfarchiadau iddo. Diolch i bawb a gefnogodd y noson hwylio yma gan sicrhau codi arian i gronfa Cyfeillion yr Ysgol er budd y plant.

Llwyddiant. Bu'r ysgol yn llwyddiannus iawn yn Eisteddfod Cylch yr Urdd yn Ysgol Brynrefail dydd Sadwrn, 25 Chwefror. Cafwyd cyntaf gyda'r Parti Unsain a 3ydd gyda'r Parti Llefaru. Bu Amie hefyd yn llwyddiannus gyda'r Unawd Chwythbrennau. Rydym yn hynod falch ohonynt ac am y gwaith caled yn ymarfer mewn byr amser. Dymunwn y gorau iddynt yn yr Eisteddfod Sir yn Neuadd Pritchard Jones Bangor dydd Sadwrn, 24 Mawrth. Diolch i bawb a fu'n brysur yn hyfforddi'r plant ac i'r rhieni am eu cydweithrediad bob amser.

Talebau Tesco. Rydym yn casglu talebau Tesco eto eleni a buasem yn ddiolchgar iawn o'u derbyn yn yr ysgol cyn diwedd mis Mehefin os gwelwch yn dda.

Cau am y Pasg. Bydd yr ysgol yn cau dydd Gwener, 30 Mawrth, ac yn ailagor i'r plant dydd Mawrth, 17 Ebrill. Cynhelir diwrnod o hyfforddiant i'r staff ar y dydd Llun.

CRONFA PENSIYNWYR. Pêl Bonws Loteri. Enillydd mis Chwefror yw Mrs Heddwen Hughes, gyda rhif 33. Llongyfarchiadau!

COLLI ANWYLIAID. Chwefror 27 yn dawel yn Ward Alaw wedi salwch byr, o 2 Bron y Waun, bu farw Elinor Jones, chwaer hoff y diweddar Alun, modryb annwyl Brenda, Michael a'u teuluoedd. Colled enfawr i'w theulu a'i ffrindiau oll. Bu'n angladd hollol breifat yn ôl ei dymuniad.

Dymuna'r teulu ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad iddynt, y llu cardiau, galwadau ffôn a'r rhoddion tuag at Ward Alaw. Diolch arbennig i'w ffrindiau a'i chymdogion am eu ffyddlondeb ac am eu cefnogaeth yn ystod ei gwaeledd. Anfonir ein cydymdeimlad llwyraf at y teulu a'i ffrindiau.

MARWOLAETH. Wedi brwydr ddewr bu farw Delyth o Benygroes, mam yng nghyfraith annwyl iawn i Rhian, Pen y Gaer gynt, gwraig annwyl Aled, mam ofalus i Rhys a nain falch Cian ac Ilan, chwaer, modryb a ffrind i gymaint, ymhell ac agos.

Dymuna'r teulu ddiolch i garedigion Penisarwaun a'r Fro am y cardiau, galwadau ffôn, ymweliadau a'r rhoddion hael er cof am Delyth i'w rhannu rhwng elusen Therapiau Cyflenwol, Ward Alaw ac Apêl Tŷ Gobaith ac achosion da eraill y bu Delyth yn gysylltiedig â hwy ym Mhenygroes. Diolch yn fawr iawn.

PWYLLGOR NEUADD. Tynnwyd Clwb Cant Mawrth a'r enillwyr oedd 1. Pat Larsen, 2. Ann Ifans.

Mae'n dda gennym gyhoeddi fod y system oleuo wedi'i chwblhau ac mae gwelliant mawr. Rydym felly yn gorfod cynnal amrywiol weithgareddau i ysgwyddo'r gost, gan obeithio y cawn eich cefnogaeth arferol.

Nos Fercher, 28 Mawrth, am 6.30 cynhelir Miri'r Pasg gydag amrywiol gystadlaethau, stondinau, raffl a phaned a bisged. Pris mynediad £1 i oedolion a 50c i blant.

Mis Mai, cynhelir Miri Mai. Dymuna'r pwyllgor ddatgan eu diolchgarwch diffuant i Dafydd, Meini Gleision, am ei ffyddlondeb a'i effeithiolrwydd fel Trysorydd am flynyddoedd maith. Diolch, Dafydd, a chroeso i Steven Walker sy'n cymryd y cyfrifoldeb o hyn ymlaen.

GWELLHAD. Mawr obeithir fod pawb ohonoch sydd wedi bod yn sâl yn prysur wella gyda'r gwanwyn wedi cyrraedd gyda'i dywydd tyner hyd yma. Ein dymuniadau gorau am wellhad llwyr i'r Parchedig Tegid Roberts wedi ei driniaeth yn Ysbyty Walton, Lerpwl yn ddiweddar.

DIOLCH. Dymuna Myra Griffith, 6 Bryn Eglwys, ddiolch am bob arwydd o gyfeillgarwch wedi ei thriniaeth yn Ysbyty Broadgreen, Lerpwl. Diolch am y galwadau ffôn, ymweliadau, cardiau a rhoddion.

EISTEDDFOD BENTREF. Edrychir ymlaen am gystadlu brwd eto eleni yn yr Eisteddfod a gynhelir nos Wener, 6 Gorffennaf. Ar gyfer y gwobrau hael, cynhelir Noson Bingo gyda raffl a stondinau ar nos Fercher, Mai 16. Erfynnir am eich cefnogaeth.

CÂN I GYMRU. Llongyfarchiadau i ti, Lois Eifion, ar gipio'r drydedd safle gyda'r gân swynol 'Cain' yng nghystadleuaeth Cân i Gymru. Pob dymuniad da eto i'r dyfodol.

GERAINT OWEN
CARPEDI
CARPEDI • VINYLS • TEILS
CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS
A RHAI MEWN STOCK
Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfai Mill Bontnewydd
(01286)650552 Mob. 07712779475

CEIR CYMRU
BETHEL (0148) 670 451
(Hefyd yng Ngherrig-y-Drudion)
A ydych yn ystyried newid eich car o fewn y flwyddyn nesaf? Ystyriwch y ffeithiau hyn.
1. Mae tri-chwarter y ceir newydd a gaiff eu gwerthu ym Mhrydain yn colli rhwng 25% i 30% o'u gwerth erbyn eu bod yn naw mis oed
2. Mae cwmnïau mawr a chwmnïau lesio a llogi yn derbyn oddeutu 25% o ddiscownt wrth brynu eu ceir ac felly mae'r cerbydau hyn yn dod ar y farchnad am brisiau isel ac fel arfer mewn cyflwr rhagorol wedi cael eu cynnal a'u cadw heb ystyried costau
3. Mae gennym brofiad o 40 mlynedd yn prynu a gwerthu ceir ail-law ac rydym ar gyfartaledd yn trafeilio mil o filltiroedd bob wythnos yn chwilio am y bargeinion gorau er mwyn eu cynnig i bobl Gwynedd ar elw sydd fel arfer o gwmpas 5% o'r pris

Teyrnged

Ar ôl cystudd byr bu farw Elinor Jones, 2 Bron y Waun ar 27ain o Chwefror yn Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd. Cydymdeimlir â Brenda a Michael, ei nith a'i nai, a chyda'u teuluoedd a chyda ffrindiau niferus Linor.

Diolch i Brenda a Michael am eu cymorth a'u cefnogaeth yn ystod ei gwaeledd ac i'r Parch Merfyn Jones am y deyrnged a'r gwasanaeth ddiwrnod yr angladd.

Cawsom ein hatgoffa o gerrig milltir ei bywyd prysur – bywyd y cês i rannu llawer ohono. Yn blentyn bach wedi cael fy magu bron drws nes i Anti Alice ac Yncl Tom – ac yn byw a bod yno yn chwarae a chwilota efo Linor ac yn chwilio am y 'tortois' efo Alun. Doedd gan neb arall yn y pentra anifail o'r fath – ac efo'r holl sylw oedd o'n gael – roedd o'n rêl 'seleb'.

Mewn blynyddoedd, Linor fyddai'n cadw llygad ar Mam a Dad a mi fu hi'n ffyddlon tu hwnt iddynt gydol eu hoes ac yn gymorth mawr i Valerie a finna.

Mi gês inna'r fraint o dalu'r gymwynas yn ôl trwy ofalu amdani yn ei dyddiau olaf a chael adnabod un fu'n arbennig o ddewr.

Doedd Linor ddim yn un i ddangos emosiwn na siarad am ei theimladau, ond yn ystod ei chystudd cafodd y ddwy ohonom amser i rannu profiadau a phriodoliaethau.

Y pethau pwysig iddi hi oedd:

- ei ffydd â'i cynhaliodd hi hyd y diwedd.
- dylanwad ei magwraeth ar ei bywyd
- ei chariad at Gwilym a'r hiraeth o'i golli – hiraeth oedd yn dal i'w llethu weithiau
- ei chariad mawr at ei theulu a'i ffrindiau
- a'i dymuniadau.

Pendant fu Linor erioed, a phendant fu hi hyd y diwedd. 'Dwi wedi blino.' 'Dwi ddim isio visitors.' 'Llonydd dwi isho' fyddai hi'n ddweud yn feunyddiol, ac os byddai'n tybio nad oeddwn i'n gwrando'n ddigon da, 'Ti'n fy nghlywed i?'

Ar y pryd roedd hi'n gwerthfawrogi ymholiadau pawb amdani ac yn mwynhau darllen y cardiau a'r llythyrau efo fi. Mawr oedd ei chonsyrn am eraill o'r pentra oedd yn wael – byddai'n holi'n aml amdanynt.

Roedd hi'r un mor bendant ynglŷn â'i dymuniadau a'i threfniadau ar gyfer yr angladd – y hi oedd wrth y llyw.

Mi gwelais hi'n colli ei hyder. Mi gwelais hi'n llonydd gan ofn, ond mi welais hefyd gryfder rhyfeddol ei chymeriad a'r nerth gafodd i'w chynnal yn ei horiau tywyll.

Ar Alaw cafodd ei gwarchod mewn môr o gariad a gofal ac mi ffarweliodd â ni'n dawel bach ar fore Llun.

Linor, diolch am gael dy gwmni cyhyd ac am gael cydgerdded rhan o'r daith efo ti.

"Mae hiraeth yn y môr a'r mynydd maith
Mae hiraeth mewn distawrwydd ac mewn cân,
Mewn murmur dyfroedd ar dragywydd daith
Yn oriau'r machlud ac yn fflamau'r tân."

Bydd yr hiraeth yn aros fel craith. Ond, mewn amser mae craith yn gwynnu a lliniaru a da ni'n dysgu byw efo hi. Felly hefyd mae hiraeth.

Bu i ffrindiau Linor ym Mhontarddulais gynnal gwasanaeth ar y Sadwrn i ddathlu ei bywyd – a diolch iddynt i gyd am eu cyfeillgarwch a'u cymorth parod. Diolch i Dylan Griffith am ei drefniadau trylwyr a'i gydweithrediad parod ac i William Munro am ei wasanaeth.

Fy nymuniad i'w theulu a'i ffrindiau yw i ddagrau galar droi'n ddagrau cysur o gofio amdani fel roedd hi.

Norah

YSGOL SUL BOSRA. Fore Sul, 25 Mawrth, bydd Andrew Setattree yn dod i annerch y plant a chynnal gweithgareddau. Cynhelir Cymanfa'r Methodistiaid bnawn Sul, 24 Mehefin, yng Nghapel Seiloh, Tregarth. Cymerir y rhan dechreuol gan blant Bosra.

Bydd Ysgolion Sul Cylch Deiniolen a Chwm-y-glo yn mynychu Gwasanaeth Boreol Yr Urdd ym Mharc Glynllifon fore Sul, 3 Mehefin, am 10.00 o'r gloch yn hytrach na chynnal Cymanfa'r Dalgylch eleni. Bydd cyfle i blant o Flwyddyn 3 i fyny ymuno i ganu dwy gân fel aelodau o'r Côr. Er diogelwch estynnir croeso mawr i blant Blwyddyn 2 i lawr ddod gyda'u rhieni i'r gwasanaeth hyfryd yma. Trefnir bws i gludo aelodau, rhieni a ffrindiau Ysgol Sul Capel Coch, Llanberis; Tabernacl Cwm y glo; Bosra Penisarwaun, ac Ebeneser Deiniolen. Gofynnir am eich cefnogaeth a'ch presenoldeb.

EGLWYS SANTES HELEN.

Ebrill 6: Gwener y Groglith, cynhelir Awr Dawel a Myfyrdod am 2.00 y pnawn.

Ebrill 8: Sul y Pasg, gweinyddir y Cymun Bendigaid am 11.00 y bore. Croeso cynnes i bawb.

CARNIFAL 2012 a gynhelir ym mis Gorffennaf.

Cynhelir Bingo'r Pasg yn Neuadd yr Eglwys am 6.00 ar Ebrill 4ydd. Bydd y pwyllgor yn casglu enwau ar gyfer Brenhines a'i Gosgordd.

Ebrill 19: Nos Iau am 6.00 trefnir Disgo i ddewis Brenhines a Gosgordd y Carnifal.

GWERSI MATHEMATEG
AR GAEL
TGAU, AS neu Lefel A
Ffoniwch : 07799 290 515



ORIEL CWM
Cwm y Glo
Ffôn/Ffacs:
(01286) 872882
Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
Ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau gwreiddiol gan Artistiaid Lleol
Richard S. Humphreys



TEULU'R POST, Y WAUNFAWR

Wrth edrych ar wahanol gyfrifiadau roedd teulu'r post yn deulu mawr. Roedd un ar ddeg o blant i gyd i Morris ac Ann Jones. Bu farw Morris cyn 1901.

Aeth William Morris Jones (1880-1957) i Poultney, Vermont, naill ai yn 1905 neu 1909. Mae cofnod hwylio pendant ar ei gyfer yn 1909. Daeth yn ddinesydd Americanaidd yn 1913 ac ar gofnod recriwtio y Rhyfel Mawr roedd yn byw yn Bridgeport, Connecticut, ac yn gweithio fel "machinist". Roedd hyn yn dipyn o newid o'i waith blaenorol fel chwarelwr llechi. Ar y cofnod recriwtio enwir chwaer iddo fel y cyswllt agosaf. Hi oedd Mrs Magdalen Parry-Ellis o Ffordd Conwy, Bae Colwyn. Priododd yn 1915, ac felly hawdd deall y newid cyfenw. Bu farw yn 1958 yn Llanelwy.

Ar gyfrifiad 1911 yr oedd un brawd i William, sef John Morris-Jones, yn feddyg a llawfeddyg ym Mae Colwyn. Bu'n feddyg ym Mae Colwyn am ugain mlynedd cyn dod yn aelod seneddol dros Sir Ddinbych. Yr oedd brawd arall, Hugh, yn Fferyllydd tra bod Magdalen Morris Jones (ar y pryd) yn gofalu am y tŷ. Y cyfeiriad oedd "Rhoslan", Bae Colwyn. Roedd yr enw yma yn tarddu o gartref rhai o'r cyn-deidiau.

Mae'r erthygl yn Eco'r Wyddfa Mawrth 2012 yn sôn am Magdalen Ellis, a'i bod wedi gweithio yn Rwsia. Ai y Magdalen Parry-Ellis o Fae Colwyn oedd yr un person? Nid oes sôn am John Gladstone ar y cyfrifiadau, ond felly pwy oedd y meddyg yn Llangollen?

Yn 1911 roedd Minnie Jones (1874-) a'i mab, Arthur (1893-) yn cadw'r post. Roedd Minnie neu Mary yn ferch sengl. Eto yng nghyfrifiad 1901 yr oedd Arthur yn cael ei ystyried yn fab i Morris ac Ann Jones!

Yn ôl i Vermont. Priododd William Morris Jones â Mary Owens Jones (1894-) ar Ebrill 24, 1930. Rhieni Mary oedd Louis neu Lewis Jones a Mary Perry. Os oedd gwraig William yn dod o Ddeiniolen yna ni welais gofnod o'r ffaith. Roedd Mary bron i bymtheng mlynedd yn iau na William. Yn ôl cyfaill o Poultney mae wyres i William yn byw yn Texas, ac mae ŵyr iddo yn byw yn ardal Poultney. Roedd y teulu wedi ymgartrefu ar Furnace Street, y drws nesaf i'r Capel Cymraeg. Rhaid nodi bod William wedi bod yn un o sylfaenwyr y "Green Mountain Glee Club", côr adnabyddus yn yr ardal. Ef oedd yr ysgrifennydd cyntaf ac adwaenid ef fel "Will Wein Mawr"! Does dim angen dweud mwy.

Bu farw William yn 1957 fel canlyniad i niwmonia, ond hefyd o anhwylderau yn gysylltiedig â llwch y lechen las. Bu farw Mary yn 1973, wedi ymddeol o'i gwaith fel gwniadwraig a gwneuthur-wraig dillad.

Gobeithio bod hyn yn taflu rhywfaint o oleuni ar y teulu, ond bydd rhaid tyrchu eto i chwilio am y chwaer a aeth i India i fyw gyda'i gŵr, ac efallai i gael mwy o wybodaeth am weddill y teulu.

MERCHED Y WAWR

Cynhaliodd y gangen ei dathliadau Gŵyl Dewi ar ddydd gŵyl ein nawddsant yng Nghaffi'r Antur, lle mwynhaodd pawb bryd tri chwrs blasus a baratowyd gan aelodau'r pwyllgor. Diolch yn fawr i bawb a fu'n brysur yn coginio, yn gweini ac yn golchi'r llestri.

Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r gangen yn y Ganolfan, nos Iau, 29 Mawrth, pryd y bydd Mr Brian Thirsk o Gwmni Sylfaen yn siarad am ei waith.

Yna, nos Iau, 26 Ebrill, cynhelir noson Pawb a'i Drysor, lle bydd unrhyw aelod yn cael dod ag eitem sy'n bwysig iddyn nhw a dweud gair bach am ei hanes.

CLWB 300. Enillwyr y Clwb am fis Chwefror oedd: £30: Mrs Gladys Greasley, Minafon; £20: Mr D.G. Davies, Bryn Teg; £10: Ms Jeanette Burdon, 4 Dôl Erddi.

DYMUNA Eurwyn Parc ddiolch i'w deulu a'i holl ffrindiau, rhy niferus i'w henwi, am y cardiau, galwadau ffôn a phob help a gafodd tra bu yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref. Diolch i bawb.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Mewn cyfarfod o'r Sefydliad a gynhaliwyd ar Chwefror 2, croesawodd Catherine Jones, y Llywydd, Aled Taylor i roi sgwrs i ni am ei waith fel aelod o dîm Achub ar y Mynyddoedd. Cafwyd sgwrs ddiddorol iawn gyda sleidiau ganddo. Mae Aled erbyn hyn wedi ymddeol a dymunodd y Llywydd yn dda iddo, gan obeithio y buasai yn cael tipyn o amser iddo fo'i hun rŵan.

Ar 1 Mawrth, cynhaliwyd cyfarfod i ddathlu Gŵyl Dewi. Darllenodd y Llywydd lythyr yr oedd wedi ei dderbyn oddi wrth Anne Williams, cyn-ysgrifennydd y Sefydliad, sydd wedi symud i Bedford i fyw. Roedd pawb yn falch o ddeall ei bod wedi setlo yn dda yno. Anfonwyd cerdyn i ddymuno'n dda iddi yn ei chartref newydd, wedi ei arwyddo gan yr holl aelodau. Y gŵr gwadd am y prynhawn oedd Mr Maldwyn Thomas o Fangor. Cafwyd sgwrs ddiddorol iawn ganddo am rai o chwedlau Cymru ac roedd pawb wedi mwynhau yn fawr. Diolchodd Pat i Mr Thomas yn dilyn ei sgwrs ac eisteddodd pawb i lawr i de hyfryd wedi'i baratoi gan rai o'r aelodau.

LLONGYFARCHIADAU. Pen-blwydd arbennig. Llongyfarchiadau i Tamsin a Keeley Griffiths, Bryn Golau, dwy chwaer fu'n dathlu pen-blwydd arbennig, Tamsin yn 21 mlwydd oed a Keeley yn 18. Dymuniadau gorau i'r ddwy ohonoch a phob hapusrwydd i'r dyfodol.

LLONGYFARCHIADAU i Meilyr Gwynedd, Nant, ar ei waith fel Cyfarwyddwr Cerdd y rhaglen Cân i Gymru ar Sianel S4C.

LLONGYFARCHIADAU i aelodau'r Urdd fu'n cystadlu yn yr Eisteddfod Cylch yn Ysgol Brynrefail ac i blant yr ysgol a chôr y pentref fu'n diddanu cynulleidfa yn y Ganolfan er mwyn cyrraedd nod ariannol y pentref ar gyfer Eisteddfod yr Urdd yng Nglynllifon fis Mehefin.

ARVONIA
cpt
• Gwyliau Prydeinig a Chyfandirol.
• Rhaglen Tripiau Dyddiol.
• Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
• Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer logi preifat.
• Adran teithiau grwp – yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatra digwyddiadau
Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA
Ffôn: 01286-675175 • Ffacs: 01286-671126
E-bost: info@arvonia.co.uk • Gwefan: www.arvonia.co.uk

Seindorf Arian Llanrug
DIWRNOD
GOLCHI CEIR
YN LLANRUG
Dydd Sadwrn 31 Mawrth
Rhwng 9 a 4 o'r gloch
• Yng Nghartre'r Band ,ffordd Glanmoelen
Stondin gacennau a phaned o de ar gael!
PRIS £5 Y CAR
YR ELW TUAG AT GOSTAU CYSTLADU YM MHENCAMPWRIAETH BANDIAU PRES CYMRU

Un funud fach ...

LLAWER IAWN GWELL

Faint ohonoch sy'n ddigon hen i gofio'r rhaglen 'What's My Line?' ar deledu'r BBC rhwng 1951 a 1963? Un a welwyd ar y rhaglen am flynyddoedd oedd Gilbert Harding, gŵr amryddawn a gawsai yrfa lwyddiannus mewn mwy nag un maes, yn cynnwys newyddiaduraeth a darlledu. Digwydd gweld pwt o hen raglen arall, Face to Face, a wnes i'r noson o'r blaen, lle'r oedd Harding yn cael ei holi gan ŵr o'r enw John Freeman. Rhaid cyfaddef na chlywais cyn hynny am y gyfres arbennig honno, ond yn ôl a ddeallaf mae'r cyfweliad rhwng Harding a Freeman, a ddarlledwyd ym mis Medi 1960, yn enwog. Mae'n sicr yn cynnwys un o'r atebion mwyaf trist a glywyd erioed ar yr un sioe siarad. Wrth drafod marwolaeth, meddai Harding, oedd ond yn 53 mlwydd oed ar y pryd, 'Mi fyddai'n dda iawn gen i fod yn farw, ond nid wyf yn edrych ymlaen at y broses o farw ei hun.' Roedd wedi sôn am ei unigrwydd a'i anhapusrwydd, a gwelai farwolaeth fel dihangfa. Er ei enwogrwydd a'i dalent, roedd bywyd rywsut mor feichus nes bod marwolaeth yn ddymunol. Tristwch pethau oedd i Gilbert Harding gael ei daro'n wael a marw'n sydyn y tu allan i stiwdios y BBC yn Llundain ddeufis yn unig wedi darlledu'r rhaglen.

Daw'r Pasg yn y man i'n hatgoffa am y gobaith sydd gennym trwy atgyfodiad yr Arglwydd Iesu Grist. Am fod Iesu wedi marw ac atgyfodi, caiff pawb sy'n credu ynddo addewid o fywyd gydag ef yn y nefoedd. Nid marwolaeth sydd o'n blaenau trwy Iesu Grist, ond bywyd o lawenydd a gorfoledd perffaith yng nghwmni Duw a'i bobl. Bywyd tragwyddol, heb boen na phryder na galar, sydd wedi ei addo i ni.

Dyna pam y gallai Paul ddweud wrth aelodau'r eglwys yn Philipi, 'Y mae arnaf awydd ymadael a bod gyda Christ, gan fod hynny'n llawer iawn gwell'. Edrychai Paul ymlaen at farw, ond nid er mwyn bod yn farw ond er mwyn bod yn fyw am byth gyda Christ ei Waredwr. Nid dihangfa rhag y byd a'i drafferthion oedd marwolaeth i Paul, ond llwybr i berffeithrwydd bywyd y nefoedd. Ond meddai Paul hefyd, 'Y mae aros yn fy nghnawd yn fwy angenrheidiol er eich mwyn chwi'. Er ei holl obaith am y bywyd oedd eto i ddod, roedd byw yn y byd hwn yn rhywbeth i'w drysori a'i fwynhau. Ac mae'r Pasg yn dweud hynny wrthym hefyd, trwy ein hatgoffa mai gwasanaethu a dilyn y Crist atgyfodedig sy'n gwneud bywyd yn wirioneddol werthfawr ar hyn o bryd. Boed i ni fyw yng ngobaith a llawenydd Crist y bedd gwag.

JOHN PRITCHARD

Am gymorth:
- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli

MANTELL GWYNEDD
Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

cysylltwch â Mantell Gwynedd
– yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com
01286 672626 neu 01341 422575
Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 3420271

Parhad WAUNFAWR

NOSON DATHLU GŴYL DEWI. Nos Sadwrn, 3 Mawrth, yn Nhafarn y Snowdonia fe gynhaliwyd noson i gasglu arian tuag at Ymchwil Cancr. Trefnwyd y noson gan gangen Caernarfon a'r Cylch o Ymchwil Cancr. Roedd adloniant gan Gemma Markham a Gari Jones, ac arlwy o gawl a bara. Rhoddwyd nifer o wobrau raffl ac fe gynhaliwyd ocsiwn gyda gwobrau wedi eu rhoi gan fusnesau yn yr ardal.

Er nad oedd cynifer yno fe godwyd £542. tuag at yr achos. Mawr ydyw diolch y pwyllgor i bawb a fu yn ymwneud â'r fenter ac i'r rhai a fynychodd am eu haelioni. Mae diolch arbennig i Carmen a staff y dafarn am eu gwaith a'u rhodd ariannol. Mae'r pwyllgor yn chwilio am fwy o aelodau o bob oed, mae'n waith boddhaol ac ni fydd angen llawer o amser sbâr arnoch.

Gareth Jones, Gorffwysfa, Waunfawr LL55 4LQ (650812).

ADREF O'R YSBYTY. Croeso adref o ysbyty Alder Hey, Lerpwl i Cadi, merch fach Chris ac Emma, Bro Waun, wedi iddi gael triniaeth i'w dwy law.

Da deall fod Mrs Sioned Parry, Cefn y Waun, yn gwella wedi iddi dderbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

Derbyniodd Mr Richard Charge, Llifon, hefyd driniaeth i'w ben-glin yn yr ysbyty.

Bu Cara Jones, Ael-y-Bryn, yn yr ysbyty yn derbyn triniaeth.

Hyderwn eich bod i gyd yn cryfhau ac yn gwella ar ôl cael dod adref.

Anfonwn ein cofion hefyd ar Mrs Angela Parry, Bryn Golau, sydd wedi dod adref o'r ysbyty ond bydd yn mynd yn ôl yno i gael triniaeth ddechrau Ebrill.

Mae Mrs Mary Evans, Tref Eilian, yn gwella yn Ysbyty Eryri ac mae Morgan, mab bach Karen a Michael Owen, Bro Waun, yn yr ysbyty ym Mangor. Dymunwn wellhad buan i'r ddau.

BABI BACH NEWYDD. Llongyfarchiadau i Mrs Sheila Roberts, Llwyn Celyn, ar ddod yn hen nain. Ganwyd gorwyres iddi, Anya, merch i'w hwyr, Llŷr a Sara,

CYDYMDEIMLO. Anfonwn ein cydymdeimlad at Mrs Gweneirys Jones, Trystan, Dylan a'u teulu yn eu profedigaeth o golli priod, tad a thaid annwyl iddynt. Roedd Mr Jones (Cartrefle gynt) yn dal â chysylltiad â'r Waun drwy'r capel.

Cydymdeimlwn yn ddwys â John Gwynedd a theulu Nant yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl.

Daeth y brofedigaeth o golli eu chwaer, Susan, i ran Malcolm a John Stag, Y Fron. Cydymdeimlwn â hwy yn eu colled.

GENEDIGAETH. Ganwyd merch fach, Mared Alaw, i Aled Rhys Jones a'i wraig, Gwenan, ym Mhontprennau, Caerdydd, wyres i Sylvia Prys Jones, Penygraig. Llongyfarchiadau a phob hapusrwydd ichi.

H.E. HUGHES
A'I FEIBION
Bwthyn Gadlys
LLANBERIS
Ffôn: 870444

★ Gwerthwr Glo
★ Olew Gwres Canolog
i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!



GWYNANT PIERCE
Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol
Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG
Ffôn: (01286) 674183
(0589) 899901

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTION • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU
RHOSTIO MOCHYN
AR GYFER
POB ACHLYSUR
* Cig o ffermydd lleol
* Partion rhwng 40 a 400!
* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
* Efo salad hefyd os dymunwch
DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â
JOHN BRYNAFON
LLANRUG
Y DYN CIG ☎ 675190 / 673188
Ffôn symudol: 07798 718188
Gwefan: www.ydyncig.co.uk

YSGOL WAUNFAWR

Ddydd Llun, Chwefror yr 20fed, daeth Mark y consuriwr i'r ysgol i gynnal gweithdy 'Paid Cyffwrdd Dweud' er mwyn codi ymwybyddiaeth Bl 3 a 4 o beryglon cyffuriau a Bl 5 a 6 o beryglon Alcohol. Mae'r plant bob amser yn mwynhau ei berfformiadau byrlymus.

DATHLU DYDD GŴYL DEWI

Bu cryn ddathlu ddydd Iau Mawrth y 1af

* Cafwyd Gwasanaeth arbennig ben bore
* Gwnaed amryw o weithgareddau am Dewi Sant yn y dosbarthiadau
* Cafwyd cawl cennin a chinio blasus
* Cynhaliwyd bingo "Llan... ... ." yn y prynhawn
* Ac fe gafodd bawb kebab ffrwythau i gynrychioli lliwiau baner Cymru

Diolch i bawb a roddodd arian. Cyflwynwyd siec o £100 i Apêl Eisteddfod Eryri - Adran Waunfawr.

CLWB GARDDIO. Mae'r Clwb Garddio wedi bod yn brysur dros yr wythnosau diwethaf yn twtio ac yn plannu. Diolch i Delyth Roberts (mam Esyllt, Gwion a Mabon), ac i Jim Caldwell (tad Tanwen) am wneud 2 focs blodau newydd i'r ffenestri ffrynt. Diolch hefyd i Rob Plaister (tad Milly a Tom) am drwsio'r byrddau picnic. Yr wythnos hon mae blwyddyn 6 wedi bod yn plannu tatws.

DYMUNIADAU GORAU. Dymunwn wellhad buan i ddwy aelod o staff, Sylvia Thompson a Sioned Parry, sydd wedi derbyn llawdriniaeth ddiwedd Chwefror. Bydd Mrs Ann Ifans a Mrs Branwen Davies yn gyfrifol am ddosbarth Mrs Parry o hyn hyd y Pasg.

GWASANAETH ADRAN IAU. Daeth Mr Andrew Setatree i gynnal Gwasanaeth Boreol yn yr ysgol ddydd Llun, Mawrth y 14eg. Rydym yn gwerthfawrogi ei gyfraniadau.

AMGUEDDFA LLANBERIS. Fel rhan o ddathliad pen-blwydd yr Amgueddfa yn ddeugain oed eleni bydd 8 o blant blwyddyn 4 yn gweithio ar brosiect technolegol i greu gwefan newydd i'r safle. Byddant yn ymweld â'r Amgueddfa ddydd Mawrth 13eg a'r wythnos ganlynol Mawrth yr 20fed.

2 SIOE MEWN WYTHNOS! Ddydd Mercher 14/3/12 bu Menter Môn yn cyflwyno'r sioe "Dim ond Eiliad" i flwyddyn 5 a 6. Roedd yn sioe yn trafod y newidiadau sy'n wynebu disgyblion pan fyddant yn trosglwyddo i'r sector Uwchradd. Cafodd y disgyblion fudd garw o'r sioe.

Ddydd Gwener 16/3/1 bu Alison Hargreaves yn cyflwyno sioe "Cool Seas Roadshow" i holl blant yr Ysgol i hyrwyddo dealltwriaeth y plant o greaduriaid y môr.

CYNGERDD YN Y GANOLFAN. Cymerodd y plant ran mewn Cyngerdd yn y Ganolfan nos Iau y 15fed am 7:00. Cyflwynwyd y noson gan Norman Williams, a chafwyd eitemau gan blant Adran yr Urdd, Gemma Markham a Chôr y Waun. Pris mynediad oedd £3.00 i oedolion (talu wrth y drws) a'r elw yn mynd tuag at Apêl Eisteddfod yr Urdd Eryri 2012.

NOSON DDARLLEN I RIENI Y CYFNOD SYLFAEN 3-7 oed. Cynhelir noson gan Yr Ymgynghorydd Anwen Owen nos Iau, Mawrth 22ain, am 6:30 o'r gloch i egluro'r broses a'r arferion da wrth ddysgu darllen i blant ifanc.

CEFNOGI DIWRNOD CHWARAEON – Sports Relief. Mae'r Cyngor Ysgol yn awyddus i gefnogi Apêl "Sports Relief" a gynhelir eleni ddydd Gwener, y 23ain o Fawrth. Bydd disgwyl i bob plentyn gerdded neu redeg 16 gwaith o amgylch trac yr ysgol sy'n un filltir. Byddwn yn gobeithio gwerthu poteli dŵr (£1.50) i gefnogi'r achos teilwng hwn.

CLWB GARDDIO.

Dyfodiad y Gwanwyn

Pan welaf un gylfinir
Ger llwybr Pant Cae Haidd,
Ac onnen ym Mryn Argoed
Yn chwilio'm le i'w gwraidd;
Mi wn,fy ffrind, fel ag o'r blaen
I'r gwanwyn alw 'Nghroes y waun.

Pan welaf gadno beiddgar
Ger Gadda'n torri'r hedd,
A'r heffrod yn Ffridd Ifan
Yn dechrau gwella'u gwedd ;
Tybio a wnawn fy nghyfaill cu
I'r gwanwyn alw yng Nghefn Du.

Pan ddaw'r ymwelwyr cyson
At raeadr Cerrig-rhyd,
A phan fo blodau banadl
Yn euraid iawn eu pryd ;
Mi wn, fy ffrind,ar leisiau'r plant
I'r gwanwyn alw ym Mhlas Nant.

Pan ddaw'r pysgotwr unig
Mewn gobaith at y llyn,
A gwesty pen yr Wyddfa
Yn araf ddeffro'n syn;
Mi wn,fy ffrind, ar sŵn dy droed
I'r gwanwyn alw'n Nrws-y-Coed.

Pan glywaf drydar dedwydd
Yn dod o ffysg y llwyn,
A phan fo gŵr Cilfechydd
Yn son am eni ŵyn;
Mi wn,fu ffrind,cyn toriad gwawr
I'r gwanwyn gyrraedd y Waunfawr.

Atodiad

Pan roddaf dusw'r cennin
Ar feddrod yn y Llan,
A'r gôg a'i deunod cyson
Uwch cysegredig fan;
Mi wn, oblegid Mawrth a'i frath
Nad yw y gwanwyn byth'r un fath.

Cyhoeddwyd y gerdd uchod yn y gyfrol 'Awen Arfon' hanner can mlynedd
yn ôl, ond ychwanegwyd yr atodiad, sef y pennill olaf yn ddi-weddar.

Rol Williams, Waunfawr

NANT PERIS

DIOLCH. Dymuna Margaret a Tony Ellis a'r teulu ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth lem o golli Sian Gwenllian mor annisgwyl a thrychinebus. Diolch am y blodau hardd a'r rhoddion hael tuag at FSID (Marwolaeth yn y crud) ac Ambiwlans Awyr Cymru. Diolch yn fawr iawn i bawb.

Côr Dinas Bangor

Yn ystod dau fis cyntaf y flwyddyn y mae'r arweinydd wedi bod oddi cartref yn gweithio yng Ngwlad Thai a Bangkok, y brifddinas yn benodol. Yn ystod y cyfnod yma yr oedd y Côr yng ngofal y Dirprwy Arweinydd, Gwilym Lewis, Caergybi. Y mae Gwilym yn Ddirprwy ac yn aelod ffyddlon iawn ym Mangor yn ogystal â bod yn Arweinydd Côr Caergybi hefyd. Y mae perthynas agos rhwng y ddau Côr hefo nifer o Gaergybi yn teithio i Fangor yn rheolaidd bob nos Fercher i fynychu y cyfarfodydd canu.

Ar nos Wener, 2 Mawrth, canodd y Côr gyda nifer eraill o gorau ac artistiaid mewn cyngerdd arbennig yn Neuadd Prichard Jones ym Mangor i godi arian at Eisteddfod yr Urdd. Ceir mwy o fanylion maes o law.

Y mae rhaglen lawn iawn gan y Côr am 2012, gyda 8 o gyngherddau hyd yn hyn gan gynnwys un hefo Côr Meibion Mansfield a Chôr Caergybi, rhywdro tua Mehefin - daw mwy o fanylion ymhellach ymlaen. Wedyn, bydd wythnosau prysur yn wynebu'r aelodau.

Siaradodd Myfyr Parry, yr Ysgrifennydd, ar y radio yn ystod Chwefror gan ganolbwyntio ar ymgyrch y Côr i godi nifer yr aelodau. Ar hyn o bryd 35 o aelodau sydd yn y Côr ac yntau wedi bod yn 50 rhyw dair blynedd yn ôl, ond wedi colli llawer oherwydd salwch ac yn y blaen fel sydd i'w ddisgwyl mewn unrhyw gymdeithas.

Nid ydym angen côr mawr, ond mae gwir angen aelodau newydd. Felly os oes unrhyw un sydd â diddordeb mewn ymuno â chôr brwdfrydig sydd yn cael llawer o gyngherddau, ac yn sicr un sydd yn teithio llawer, byddwn yn cyfarfod yn wythnosol yn Ysgol y Faenol, Penrhosgarnedd, am 7-30pm a bydd croeso mawr yno yn eu disgwyl.

Ers cychwyn y Côr yn 1988 yr ydym wedi teithio i ac wedi canu yn Canada, Yr Almaen, Cyprus, Yr Unol Daleithiau, Malta, Awstria (tair gwaith gan gynnwys llynedd), Gogledd Iwerddon yn ogystal â Chymru a Lloegr.

GLANHAWR SIMNE
TRWSIO CORN • GOSOD CAWL
Cysylltwch â Tom Jones
(01286) 881305
WEDI PRYNU BUSNES Y DIWEDDAR GWYNFRYN LLOYD

BARRYS GLASS
FFENESTRI • DRYSAU
Conservatori UPVC
Trwsio Unedau "DOUBLE GLAZING"
Trwsio a Gosod Gwydr
(01286) 872772
Symudol- 07840 794269

Cydnabyddir cefnogaeth
Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by Welsh Assembly Government
BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD
www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

Problem gyda'ch cyfrifiadur?
Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch â Gomer Roberts
Ffôn : 01286 870462
Symudol : 07962 712368
Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!

ECO'r Wyddfa

O'r Cynghorau

Cyngor Llanddeiniolen

Crynodeb cyfarfod y 6ed o Fawrth.

Gweddi. Offrymwyd y weddi agoriadol gan Richard Llwyd Jones.

Menter Waunfawr. Croesawyd Mr Dafydd Jones i wneud cyflwyniad ar ran y Fenter. Cafwyd hanner awr ddiddorol iawn yn gwrando ar Mr Jones yn manylu ar weithgareddau'r Fenter a'i datblygiadau diweddaraf. Cafwyd ychydig funudau i ateb cwestiynau a diolchwyd iddo gan y Cadeirydd.

Materion o'r cofnodion.

Rhiwlas, gwaith patsio – Ateb Gwynedd eu bod wedi ymgymryd â'r gwaith ac yn cadw golwg eto rhag ofn y bydd mwy o angen. Carreg y Gath Isaf, Adran Ffyrdd yn hysbysu'r Adran Llwybrau o'r sefyllfa.

Penisa'rwaun – llifogydd. Cadarnhad Gwynedd eu bod yn trefnu gosod sianelau wrth ochr y ffordd ger yr arwyddion 30mya i atal dŵr rhag llifo i Ffordd Winllan.

Gohebiaethau a materion eraill.

Cyngor Cefn Gwlad. Derbyniwyd eu bwriad i adolygu mapiau mynediad agored ar gyfer mynydd-dir, gweundir, rhostir, downs a thir comin Cymru. Gofynnodd rhai aelodau am eu cyfeiriad gwefan sef – mapiomynediadagored@ccw.gov.uk

Defaid yn crwydro. Cyfeiriodd Len Jones at hyn gan ddweud nad oes bugeiliaid teithiol mwyach. Penderfynwyd cwyno i N.F.U, Stryd Bangor, Caernarfon.

Baw Cŵn. Dywedodd Mrs Larsen bod mwy o arwyddion wedi eu gosod ym Mhenisa'rwaun.

Cynllunio

Derbyniwyd un cais. Gors Bach – Estyniad yn y cefn ar gyfer person anabl.

Llwybrau. Ateb Gwynedd eu bod wedi derbyn y gŵyn ynglŷn â llwybr Cysegr, Bethel.

Llwybr 74, Rhiwlas. Dywedodd Hefin Williams bod llwybr Ffynnon Gwynfryn, Rhiwlas, ar fin cael ei gau a dangosodd lun o baratoadau ar gyfer gât yno – llythyr i Wynedd.

Materion ychwanegol

Cyfeiriodd Richard Ll. Jones at sefyllfa'r algae ar lyn Padarn. Daw gwybodaeth reolaidd trwy law Huw P. Hughes o Gymdeithas y Pysgotwyr ond mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn anwybyddu'r Cyngor yn llwyr. Dylent gysylltu o dro i dro pe bai ond o ran cwrteisi. Penderfynwyd anfon llythyr i Mr David Edwell o'r Asiantaeth, Parc Menai, Bangor.

Aelod Seneddol y dyfodol. Cyfeiriodd Phyllis Ellis at y bwriad o newid ffiniau'r Etholaeth Seneddol. Dywedodd ei bod wedi anfon cwyn bersonol ond dylai'r Cyngor hefyd wrthwynebu'r newid, byddai rhaid i etholwyr yr ardaloedd yma deithio i Gaergybi i weld eu haelod. Penderfynwyd yn unfrydol i ddanfon llythyr o wrthwynebiad.

Dyddiad y cyfarfod nesaf y 27ain o Fawrth.

ECO'r Wyddfa

O'r Cynghorau

Cyngor Cymuned Llanrug

Mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 21ain o Chwefror 2012, penderfynwyd:

* Torri'r brigau isel ym mharc chwarae Glanmoelyn a chlirio'r goeden sydd wedi disgyn yno.

* Ysgrifennu at Swyddogion Capel y Rhos ynglŷn â rhyddhau tir ar gyfer parcio ger Ffordd yr Orsaf.

* Gofyn i gwmni GL Jones edrych ar ardal y sleid gan fod rhai plant wedi disgyn yno. Cytunwyd hefyd i ofyn iddynt dynnu'r geiriau Saesneg oddi ar y cyfarpar newydd.

* Gwerthu darn bach o gae chwarae Glan Moelyn ar gyfer y datblygiad tai ar safle'r Hen Ysgol.

* Derbyn pris o £1,080 gan Mr Dafydd Owen am dorri llwybrau'r gymuned am 2012.

* Cysylltu gydag Adran Iechyd a Diogelwch Cyngor Gwynedd ynglŷn â'r golwg ofnadwy a phryder am ddiogelwch tŷ ym mhentref Cwm y Glo

* Nad oedd gwrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio canlynol:

Estyniadau, adeiladu modurdy ac ymestyn cwrtil preswyl – 1 Bron Seiont, Pontrug

Estyniad deulawr ar yr ochr – 15 Glanmoelyn, Llanrug (ond gofyn os oes darpariaeth ar gyfer parcio)

Estyniad deulawr – Gallt y Celyn, Ffordd Clegir, Llanberis.

Estyniad deulawr i gefn tŷ annedd – Cae Newydd, Llanrug

* Rhoi grant o £725 i Seindorf Arian Llanrug.

* Anfon nodyn i'r ymgymerwyr yn gofyn iddynt nodi'r amod i beidio â gadael trysorau ar y beddi yn y fynwent.

* Edrych i mewn i wahanol ffyrdd o glirio'r mwsogl oddi ar wyneb llwybrau'r fynwent.

Cynnyrch a gwasanaethau priodol ar gyfer y rhai dros 50 oed

- Yswiriant Cartref
- Yswiriant Car
- Yswiriant Teithio
- Nwy a Thrydan
- Larymau Personol
- Cynlluniau Angladdau

Am bris heb rwymedigaeth, ewch i:
Age Concern Gwynedd a Mon
Ty Seiont, Ffordd Santes Helen
Caernarfon LL55 2YD
Ffôn: **01286 678310**
(ar agor 9am–5pm Mon to Fri)

Neu ffoniwch **0800 085 3741** neu ewch i
www.ageuk.org.uk/products

AGE Concern

age UK

Darperir yswiriant cartref, car a theithio gan Yswiriant Ageas Cyfyngedig.
Darperir Nwy a Thrydan gan E.ON Energy Solutions Cyfyngedig.
Age UK yw nod masnach Age UK (Elusen rhif 1128267). Defnyddir enw a logo Age UK o dan gytundeb trwydded rhwng Age UK ac Age UK Enterprises Limited, sef eu cangen gwasanaethau masnachol. Rhoddir yr elw net i Age UK. Age UK Enterprises Limited, Linhay House, Ashburton, Devon TQ13 7UP. ID9975 11/10 MP2430V2APR11 SL031616_11_1

Cefnogwch ein hysbysebwyr

Ar ben arall i'r lein

Mae'n anodd cadw problemau Llyn Padarn o'r newyddion ond, o'r diwedd, mae'r cyfryngau wedi cael gafael go iawn ar y llusgo sydd wedi bod yn mynd ymlaen erS blynyddoedd. Yn ddiweddar, bu gwyntyllu'r problemau ar raglen Manylu (BBC Cymru); hefyd mae tudalen gyfan 'Comment' yn y cylchgrawn Trout and Salmon wedi dod â'r mater i sylw drwy Brydain i gyd.

Be sy'n digwydd? Wel, ar 28 Mawrth, mae cyfarfod yn Llanberis gyda un o benaethiaid adran garthffos Dŵr Cymru, wedi ei drefnu gan Alun Ffred Jones AC, ac yn dilyn, ar 2 Ebrill, bydd Fforwm Padarn yn cyfarfod ym Mynydd Gwefru, Llanberis. Yn ogystal â hyn mae Gweinidog Amgylchedd y Cynulliad Cenedlaethol, sef Mr. John Griffiths, wedi cytuno i gyfarfod â'r Gymdeithas pan fydd yn y fro tro nesaf!

Os na fydd rhyw ychydig o oleuni ar sut mae'r broblem i'w datrys ar ôl yr holl drafod gyda'r holl bwysigion, yna mae gennyf ofn Y bydd yn rhaid rhoi'r ffidil yn y to a derbyn fod pethau ar ben ar y torgoch. Wedyn prysur y daw y dydd na fydd posib cynnal unrhyw weithgaredd ar Padarn oherwydd llygredd. Gobeithio'n wir na fydd yn rhaid wynebu hyn, ond rhaid cysidro ein bod wedi bod yn brwydro'r frwydr yma am dros 20 mlynedd.

Er hyn rhaid bod yn bositif ac edrych ymlaen am y dyfodol gan obeithio y bydd pethau yn gwella. Ac fel rhan o'r strategaeth yma mae'r Gymdeithas yn hysbysu ein bod yn edrych ar wahardd unrhyw bysgota abwyd ar y Llyn, yn gychwynnol am 3 blynedd. Y rheswm, wrth gwrs, yw fod amcan mai dim ond 600 o'r pysgod yma sydd ar ôl yn y dyfroedd. Mae cynllun stocio yn cael ei gynnal gan Asiantaeth yr Amgylchedd ac eleni bydd 1,500 o dorgochiaid bach yn cael eu dychwelyd i'r llyn o'r ddeorfa yn Nolgellau. Felly y drefn fydd pysgota plu a troelli yn unig. Rhaid glynu at hyn er mwyn cynnal llygedyn o obaith am y dyfodol!

Gweithred arall i geisio achub y torgoch yw creu mannau claddu pwrpasol allan o gyrraedd arllwysiad Llyn Peris - rhan o'r cynllun yw ceisio dod â'r rhan yma o Afonydd yr Hwch a'r Bala yn agos i'w rhediad gwreiddiol cyn adeiladu'r orsaf drydan. A oes unrhyw un â lluniau o'r afon fel ag yr oedd cyn y gwaith? Buaswn yn ddiolchgar dros ben o gael copi er mwyn ei drosglwyddo i Asiantaeth yr Amgylchedd a fydd yn trefnu'r gwaith. Mae hyn yn eithriadol o bwysig ac mae eich cymorth yn hanfodol. O ddiddordeb, mae gennyf Fideo Ivo Peters gyda trenau y chwarel yn 1950'au. Mae un yn rhedeg ar hyd ochr Afon y Bala, dod ac atgofion yn ôl fel ag yr oedd pethau. Mae rhai yn dweud fy mod eisiau ffidil pan yn sôn am yr hen bethau!

Mae cryn waith wedi ei wneud yn cynnal y cychod, clirio coed oedd wedi ei disgyn yn ystod stormydd y gaeaf, gwaith di-ddiolch ond angenrheidiol at bysgota di-rwystr dros y misoedd i ddod. Diolch i'r criw bach sydd wrthi mor ddygn yn y cefndir.

Gyda'r tymor newydd wedi agor ei ddrws a mawr edrych ymlaen i gael taflu pluen dros ein dyfroedd, rhaid cofio a diolch i'r rhai sydd wedi bod ynghlwm â gwneud yr holl weithredoedd ac eiddo y clwb yn bosib. Mae tri sydd wedi bod wrth lyw y clwb ers nifer fawr o flynyddoedd yn anffodus heddiw ddim mewn llawn iechyd, sef Maurice M. Jones, Penllyn, a fu'n Gadeirydd ac un o'r cyfarwyddwyr am nifer fawr o flynyddoedd; Cledwyn Jones, Ysbyty, un o gyfarwyddwyr presennol y Gymdeithas a Vyrnwy Evans, Caernarfon, a fu'n aelod ffyddlon a gweithgar o'r Pwyllgor Gwaith. Diolch yn fawr i chi hogiau am ei ymroddiad, mae un peth yn sicr, dwi wedi dysgu llawer yn eich cwmni.

Cofiwch Llyn Dywarchan ar 1af o Ebrill. Pwy gaiff y cyntaf tybed?

Huw Price Hughes

Gwasanaeth Gwres a Plymio
safe
Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser
Arwel Jones • Tyn y Maes • Cwm y Glo LL55 4DH
Tel. (01286) 872225 Mobile- 07798 746718

SWIGOD A SEBON
SYCHLANHAU
Altro • Ailwnïo
GWASANAETH
Casglu a Danfon
Gwasanaeth Golchi a Smwddio
54 STRYD FAWR LLANBERIS
(01286) 870088

J.M. JONES
a'i Feibion
LLANRUG
Gwaith Coffaol
Ffon Gwaith
01286 672898
Cartref
01248 679089
Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

DODREFN PERKINS
(Safle'r hen Nelson) CAERNARFON
Ffôn: (01286) 676 040
• Pob math o ddodrefn tŷ
• Cegin, 'stafell fyw, llofft
• Prisiau cystadleuol
• Carpedi, Llenni a Lloriau Pren

Chwaraeon

DIWEDDGLO CYFFROUS

Gyda Llanrug a Llanberis yn canolbwyntio ar y Gynghrair yn unig, edrychwn ymlaen at y ddau dîm yn gorffen yn uchel yn eu gwahanol gynghreiriau. Uchafbwynt Llanrug oedd chwalu'r Cofis 5-0. Fel y dwedodd rhywun: Say-no mor!

Mae Llanberis yn chwarae'n dda, ond yn wynebu chwarae nifer o 'gemau mewn llaw'. Tîm i wylio am ddyrchafiad y tymor nesaf, efallai.

Ffarweliodd Llanbabo â'r Junior Cup ond mae gobeithion Waun am gipio Cynghrair Arfon yn dal yn fyw. Mae Bethel yn dal i frwydro, a bydd toriad yr haf yma yn bwysig i ail sefydlu'r sylfaen. Rhaid canmol pwyllgor Bethel am roddi cyfle i chwaraewyr ieuanc, rhai yn 16 oed. Ysgol ddrud yw ysgol profiad, ond efallai bydd yn talu ar ei ganfed mewn tymor neu ddau. Rhoddwyd gem dda i'r ceffylau blaen o Gaergybi yn ddiweddar.

TYMOR RHEDEG MYNYDD YN DECHRAU O DDIFRIF.

Wedi egwyl fer yn dilyn Ras Moel-y-ci, mae'r rasys mynydd yn llenwi'r calendr rhedeg am y misoedd nesaf. Un o'r cyfresi mwyaf poblogaidd yw Cynghrair Nos Fawrth sy'n cychwyn eleni ar Foel Tryfan ae Ebrill 3ydd. Bydd y cofrestru yn Ysgol Bron y Foel, a'r rasys plant ac oedolion yn cychwyn am 7.00. O fewn wythnos bydd ras y Foel Lus o Ddwygyfylchi, ac yna'r wythnos ddilynol, dychwelyd i'r Fron ar gyfer Ras Mynydd Mawr. Ddiwedd y mis, ar y 24ain bydd Ras Pendinas, Nant Peris. Bydd gwybodaeth am rasys Mai yn y rhifyn nesaf.

Ar ddydd Sadwrn 7fed Ebrill cynhelir Ras 4 Y Fron, unwaith eto, gyda'r cofrestru yn Ysgol Bron y Foel. Mae'r ras hon yn cynnwys copaon Moel Tryfan a'r Mynydd Mawr ddwywaith – dyna'r rhif 4 yn enw'r ras! Ac ar ddydd Sul, 22ain o Ebrill bydd ras Mynydd Swtan ym Mhorth Swtan ger Llanrhuddlad. Dyma ras fach gartrefol o'r traeth i gopa'r mynydd ac yn ol, ac os bydd y tywydd yn ffafriol, safle da i'r teulu i gyd gael mwynhau'r ras a'r awyrgylch.

SYMUD I'R PWLL MAWR

"Mae Oes Aur ar y ffordd." Dyna fu ymateb sawl un o'r 'gwybodusion' wedi i Gymru gipio'r Gamp Lawn. Cawsom ein dal ar bigau'r drain dros gyfnod y gemau. Eto, gwelsom aeddfedrwydd, nerth ac ymlyniad y garfan gymharol ifanc yma. Cydbwysedd rhwng egni'r ifanc a phrofiad yr 'hen bennau'. Ac arweiniad pendant y tîm hyfforddi yn amlwg. Ar y lefel uchaf erbyn hyn gellir galw'r garfan yn 'broffesiynol' yn eu hagwedd, ymroddiad, perfformiad a disgyblaeth. Elfennau dieithr iawn i rai o dimau'r gorffennol agos.

Rhaid yn awr symud i'r pwll mawr a mesur ein datblygiad yn erbyn cewri Hemispher y De. Bydd cryn edrych ymlaen i'r daith fis Mehefin i Awstralia.

Â'r 'bwrdd top' yn llifeirio, nid felly ymysg y rhanbarthau. Colli prif chwaraewyr i feysydd brasach Ffrainc a Lloegr. Torfeydd pitw, ac felly problemau ariannol. Rhaid i'r Undeb a'r rhanbarthau chwilio am ffordd ymlaen o'r picl. Nid taflu arian a wastreffir ar gyflogau uchel yw'r ateb. Dull o chwarae apelgar wnaiff ddenu'r 'cwsmeriaid'. Llwm iawn fu'r arlwy y tymor hyn. Ai'r hyfforddi sy'n ddiffygiol?

Croesawyd y tîm dan 20 i Fae Colwyn, a'r torfeydd yn cefnogi'r tîm. Rhaid i'r chwaraewyr yma gael mwy o gyfle i feithrin eu doniau yn y timau rhanbarthol ar draul rhai o'r 'hen bennau' costus o dramor.

Nawddoglyd braidd oedd rhai o'r sylwebwyr, fel petaent yn dod i'r lleuad. Y mae'r Gogledd yn rhan o dir Cymru, rhan o gyfrifoldeb yr Undeb. Nid atodiad sydd yma, ond rhanbarth yn mynnu cymeryd ei le ar lefel Cymru gyfan. Pam cyfeirio at George North y Gogleddwr. Ni chlywn am Jenkins y Deheuwr, neu Priestland y Gorllewinwr. Cymry ydynt.

Dyma gyfle gwych i'r Undeb rŵan i chwifio'r faner o Gasnewydd i Aberdaron, ac ariannu datblygiad y gêm yn ei gwreiddiau. Plannu'r brwdfrydedd, medi'r llwyddiant.

A OES GWAHODDIAD?

Tlws yr Eco 2012 sydd dan sylw. Mae'r gystadleuaeth yn mynd o nerth i nerth ac yn ddiweddar gwireddwyd y freuddwyd o symud y gemau o gwmpas Bro'r Eco. Eisoes mae gwahoddiad wedi ei dderbyn. Am y tro cyntaf bydd un o'r oedrannau yn chwarae ar gartref C.P. Llanrug ar yr Eithin Duon. Felly, rydwyf yn chwilio am wahoddiad ar gyfer yr un/ dau oedran arall. Wedi trafod gyda'r clybiau, bydd rhaid gwneud penderfyniad ynglŷn â'r plant ieuengach na'r adrannau dan 11a dan 9.

Blodau Racca
(Alwyn a Sarah Jones)
Ffôn: 870605
- Basgedi Planhigion
- Planhigion Gardd
- Basgedi Crog
- Hefyd, Compost ar werth

RHODD O'R GALON YW BLODAU

ECO'r Wyddfa
Cefnogwch ein hysbysebwyr

YSWIRIANT FUW
Hoffech chi hybu:
FUW UNDEB AMAETHWYR CYMRU
Bwyd lleol
Busnesau cefn gwlad
Economi wledig
Trwy gefnogi Yswiriant FUW?
Yswiriant car, ty neu unrhyw fusnes
Dafydd P Jones 01492 642683 Dwyrain Sir Gaernarfon
Buddsoddi yn eich cymuned
Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei awdurdodi a'i reoli gan Awdurdod y Gwasanaethau Ariannol, yng nghryd-destun cyfryngu yswiriant, o dan Rhif Cofrestru 308935

Caffi Caban
ar Agor
9 y bore tan 4 y pnawn - 7 diwrnod yr wythnos
Cwmni cydweithredol di-elw yw Caban Cyf. wedi ei sefydlu i hwyluso datblygiad economaidd cefn gwlad.
Nod Caban Cyf. yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau refeniw (Caffi Trwyddedig, Ystafell Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffu a Llungopio) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (Unedau Busnes Caban) er mwyn creu cyfleoedd gwaith.
Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail
www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org
01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)
Caban cyf

Chwaraeon



Yn ddiweddar cefais arwain noson ar ran Cymdeithas Cefnogwyr Dinas Bangor yn eu lolfa foethus yn Nantporth. Daeth torf dda i wrando ar y prif siaradwyr, Chris Coleman, rheolwr Cymru, John Deakin fydd yn ymddeol fel ysgrifennydd Cynghrair Cymru a'i olynydd Gwyn Derfel. Roedd yr elw yn mynd at y gronfa i ddatblygu eisteddle gysgodol tu ôl i un o'r goliau. Noson bêl-droed go iawn oedd hi, a'r pwyslais i gyd ar agweddau o bêl-droed yng Nghymru. Bu'r tri yn barod iawn i fynegi barn, er nad oedd hynny yn plesio bob tro.

I gwrt John Deakin a Gwyn Derfel y disgynnodd y ddwy daten boeth o gyfraniad ariannol i'r clybiau gan gwmniau teledu a'r ddadl dros bêl-droed yr haf. Aiff yr arian cytundebol teledu yn syth i'r F.A. O gofio poblogrwydd y 'gêm fyw' bnawn Sadwrn a'r rhaglen Sgorio, ychydig gannoedd o bunnau sy'n cyrraedd y clybiau.

Roedd rhai o swyddogion Bangor yn awgrymu bod y disgyniad yn y dorf oherwydd presenoldeb y camerâu, yn arwain at golled o ryw £15 000 dros dymor. Mynnai Deakin mai Cynghrair yr Haf yw'r ateb i wella perfformiadau clybiau Cymru yn Ewrop. Amhoblogaidd oedd y safiad yma i fwyafrif y gwrandawyr. Awgrymodd un bod chwarae gemau cartref Ewrop yn Nantporth yn hytrach na'r Cae Ras yn ffactor bwysig - o ran canlyniad ac elw. Er yn 'Gofi' cynhesodd y dorf at ddwyieithrwydd Gwyn Derfel a dymunwyd yn dda iddo. Yn amlwg roedd parodrwydd i wrando a thrafod fel 'boi ffwtbol' yn argoeli'n dda. A 'Gog', wrth gwrs!

Yn amlwg roedd cysgod Gary Speed dros y noson, a chyfeiriwyd sawl cwestiwn i Coleman ynglŷn â'r olyniaeth. Roedd y rheolwr newydd yn cydnabod gwaith clodwiw Speed yn gosod sylfaen. Roedd y garfan 'ifanc' yn ei gyffroi, gyda mwy ohonynt erbyn hyn yn chwarae yn Uwch Gynghrair Lloegr. Cadw at yr un patrymau, a datblygu'r ffyddlondeb i'r garfan fydd yn bwysig. Roedd yn ffyddiog y gallai berswadio Bellamy i ymestyn ei yrfa ryngwladol, ond ni ddaw Giggs yn ôl. Roedd yn siŵr fod camrau dyfodol Giggs yn ymwneud â chyfundrefn Old Traffod ôl-Ferguson.

Nid oedd Coleman yn cytuno â sefydlu tîm GB am y Gemau Olympaidd, ond sylweddolai mai gyda'r unigolion yr oedd y dewis terfynol. Yn ddiflewyn ar dafod condemniodd antics 'Dutch Ray', chwedl y dorf.

A oedd pwrpas bwcio gwesty ym Mrasil, holai un o'r llawr. Rhaid bod yn realistig oedd ymateb Coleman, ond mynnai fod cyfle da, o weithio'n galed a chadw'r prif chwaraewyr yn ffit i wireddu'r freuddwyd. Dyna ei uchelgais.

Mae nosweithiau o'u math yn boblogaidd ac os oes rhai ohonoch â diddordeb bydd noson gyffelyb yng Nghlwb Criced Bangor ar nos Wener, Ebrill 13, a'r prif siaradwr fydd Mike Summerbee, cyn seren Manchester City. Am fanylion pellach 012480 362729.

Â'I FFYN, AR FFORDD I'R FFEINAL

Rydym wedi mabwysiadau dau dîm yn ein colofnau dros y blynyddoedd oherwydd yr aelodau lleol sy'n eu carfannau. Llongyfarchiadau i dîm rygbi Caernarfon ar gadw gafael ar bencampwriaeth Gogledd Cymru. Mae'n ymddangos y bydd un o dimau hoci Caernarfon – sy'n chwarae ar faes pob tywydd Brynrefail – yn cael dyrchafiad eleni.

I gynnal llwyddiant rhaid wrth strategaeth ieuenctid benodol. Efallai bydd darpar chwaraewyr i'r tîm hoci yn dod o Ysgol Bethel. Yn ddiweddar bu tîm cymysg Blwyddyn 6 yn cystadlu yn Nhwrnament Hoci Cylch Arfon. Cynhaliwyd y gemau ar adnoddau arbennig y Maes Glas ar gampws y Brifysgol ym Mangor. Caed canmoliaeth o safon y chwarae a, thrwy orffen yn ail, roedd y tîm yn cystadlu yn gemau terfynol Gwynedd. Cafwyd cystadlu brwd unwaith eto draw yng Nghanolfan Porthmadog, a bydd y tîm yn falch o gipio'r trydedd safle.

Braf cofnodi yr ystod eang o gampau sydd ar gael i'r ieuenctid heddiw. Anodd rhywsut yw uniaethu hyn â'r gri negyddol a geir yn aml – "Does dim byd i ni wneud yma." Mae'r clybiau yno. Cefnogwch hwy.